

# Sicrhau bod **ein lleisiau'n** cael eu clywed

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020–21

victimsupport.org.uk

VICTIM SUPPORT

Y DUDALEN NESAF >>

# Cyflwyniad

## Pwy ydyn ni

**Mae Cymorth i Ddioddefwyr (VS) yn elusen annibynnol. Rydyn ni wedi ymrwymo i gefnogi dioddefwyr troseddau a digwyddiadau trawmatig yng Nghymru a Lloegr, ac rydyn ni'n sicrhau eu bod wrth galon ein sefydliad.**

Ein diben yw darparu gwasanaethau a chymorth arbenigol a chefnogi pobl i ymdopi a dod atyn nhw'u hunain nes byddan nhw'n teimlo eu bod yn gallu ailgydio yn eu bywydau. Rydyn ni'n gweithio gyda chleientiaid mewn ffordd sy'n gyfleus iddyn nhw ac yn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed tra byddan nhw'n cael eu cefnogi ac ar ôl hynny.

Rydyn ni fel sefydliad yn canolbwyntio ar ddioddefwyr, y bobl sydd agosaf atyn nhw a thystion i droseddau. Dros y blynyddoedd rydyn ni wedi datblygu arbenigedd heb ei debyg o ran eu hanghenion a'u siwrnai drwy'r system cyfiawnder troseddol.

## Gair am yr adroddiad hwn

Thema'r adroddiad hwn yw ***Sicrhau bod ein lleisiau'n cael eu clywed***, er mwyn dangos sut rydyn ni – dioddefwyr, tystion, goroeswyr, staff, gwirfoddolwyr a chyfeillion cefnogol – wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cefnogaeth ac wedi codi ein llais yn erbyn anghyfiawnder ac annhegwch.



Os ydych chi'n pori drwy'r adroddiad hwn, cadwch lygad allan am yr **eicon llais** lle rydyn ni'n tynnu sylw at eiriau a straeon pobl y mae troseddau wedi effeithio arnyn nhw a'r bobl sydd wedi'u cefnogi.





Y DUDALEN NESAF >>

# Cynnwys


**Croeso** 4
Gair amdanom ni 6
Beth rydyn ni'n ei wneud 8
Ein gwasanaethau 10

**Effaith Covid-19 a mudiadau cyfiawnder troseddol ar droseddu** 11
Profiadau o'r system cyfiawnder troseddol 13
Addasu ein gwasanaethau 13


**Adroddiad yr Ymddiriedolwyr** 15
Llwyddiannau a pherfformiad 15
Cynlluniau ar gyfer y dyfodol 31

**Adroddiad strategol** 33
Strwythur, llywodraethu a rheoli 33
Aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor 37
Adolygiad ariannol 39
Y prif risgiau ac ansicrwydd 40
Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr o ran y datganiadau ariannol 43
Adroddiad yr archwilydd 44

**Datganiadau ariannol** 47
Datganiadau cyfunol o weithgareddau ariannol 47
Y fantolen ar 31 Mawrth 2021 48
Datganiad cyfunol o'r llif arian 49
Nodiadau ar y datganiadau ariannol 50

**Diolch** 60
Ein pobl 60
Ein cyllidwyr 63
Y bobl sydd wedi ein cefnogi ac sydd wedi codi arian i ni 65

**Manylion cyfeirio a gweinyddol** 66

*'Helpodd Cymorth i Ddioddefwyr fi i gael fy mywyd yn ôl ar y trywydd iawn.'*

Goroeswr cam-drin domestig

# Croeso

**Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021, cafodd dros 12 miliwn o droseddau[1] eu cyflawni – a oedd yn debyg i lefel y flwyddyn flaenorol. Ond eto, roedd yr heddlu wedi adrodd bod troseddu wedi gostwng 10% i 5.4 miliwn o droseddau[2]. Pan fydd dioddefwyr yn rhoi gwybod am drosedd, nid yw 22% yn cael cynnig atgyfeiriad at wasanaethau cefnogi, a dim ond 9% sy'n arwain at wŷs neu gyhuddiad. Rydyn ni'n gweld problem barhaus o ran diffyg ymgysylltu â'r system cyfiawnder troseddol.**

**Mae nifer y bobl sy'n cysylltu'n uniongyrchol â ni i gael cymorth wedi cynyddu. Mae nifer y bobl rydyn ni wedi'u cefnogi'n gyffredinol wedi cynyddu 36% ers y llynedd, ac mae nifer y bobl rydyn ni wedi'u cefnogi, sydd wedi profi'r troseddau mwyaf niweidiol hefyd wedi cynyddu.**

**Oherwydd hyn, ac oherwydd y flwyddyn eithriadol rydyn ni wedi'i chael, lle mae'r effaith ar y rheini y mae troseddu wedi effeithio arnyn nhw wedi bod mor ddwys, mae gofyn sicrhau bod lleisiau dioddefwyr yn cael eu clywed yn uwch nag erioed o'r blaen.**

Roedd y cyfnodau clo a'r gwahanol lefelau cyfyngiadau a osodwyd gan Lywodraethau Cymru a'r DU mewn ymateb i bandemig Covid-19 wedi effeithio ar droseddu a chysylltiad dioddefwyr ag asiantaethau statudol a gwasanaethau i ddioddefwyr mewn gwahanol ffyrdd. Roedd gofyn newid sut i ddarparu cymorth hefyd.

Mae'r cyfyngiadau wedi galluogi rhai mathau o droseddau, ac mae eraill wedi lleihau o ganlyniad iddyn nhw. Un o effeithiau mwyaf y cyfnodau clo oedd pan oedd troseddau'n digwydd yn y cartref – fel cam-drin domestig, lle'r oedd amlder a dwyster y cam-drin yn cynyddu, a lle'r oedd hi'n anoddach i'r dioddefwr neu'r goroeswr gael cymorth yn ddiogel.

Roedd atgyfeiriadau ar gyfer twyll, trais heb anafiadau, troseddau casineb ac ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi cynyddu'n neilltuol hefyd, gyda rhai'n cynyddu'n sylweddol yn ystod cyfnodau clo ac eraill yn cynyddu ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu llacio.

Mae'r gostyngiad yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n cael ein gwasanaethau, yn arbennig yn ystod cyfnodau clo, yn bryder allweddol i Cymorth i Ddioddefwyr. Er gwaethaf cynnydd ar ôl i'r ysgolion ailagor, rydyn ni'n credu y gallai miloedd o blant a phobl ifanc fod wedi colli allan ar gefnogaeth hanfodol a'u bod yn parhau i fod yn anweladwy i'r gwasanaethau.

Beth bynnag fo'r math o drosedd a brofwyd, mae'r darlun cyffredinol wedi bod yn un llwm; mae troseddau wedi dwysau'r teimladau o straen ac unigrwydd yr oedd pobl yn eu profi yn ystod y pandemig, yn ogystal ag effeithio ar sut roedd pobl yn ymdopi.

Ar yr un pryd, mae dioddefwyr wedi profi oedi wrth roi gwybod am droseddau a chael ymateb gan yr heddlu. Mewn rhai achosion, maen nhw wedi aros oriau am ymateb i alwadau 999 ar gyfer achosion trais domestig, ac mae eraill wedi cael eu hannog i fynd ar drywydd sifil yn hytrach na throseddol, ac mae nifer wedi rhoi gwybod am ddyddiadau achosion llys yn cael eu canslo ac oedi gyda threialon, gyda rhai wedi'u haildrefnu ar gyfer 2023. Cafodd y rhain, a chanfyddiadau eraill, eu hamlygu yn ein hadroddiad, *Crime and Covid-19*.

Mae digwyddiadau byd-eang a mudiadau cyfiawnder troseddol wedi tynnu sylw at anghyfiawnder ac annhegwch mewn cymdeithas, wedi gwneud i bobl fod ofn troseddau, ddim yn ymddiried yn y system cyfiawnder troseddol a hel meddyliau am droseddau roedden nhw wedi'u profi'n flaenorol, ac ail-fyw'r rhain.

1 Troseddau yng Nghymru a Lloegr: y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021, y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cyhoeddwyd 22 Gorffennaf 2021.

2 Troseddau yng Nghymru a Lloegr: y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021, y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cyhoeddwyd 22 Gorffennaf 2021.



YN ÔL I'R CYNNWYS

Yn ystod y cyfnod heriol hwn i ddioddefwyr fe wnaethon ni addasu ein gwasanaethau er mwyn diwallu eu hanghenion gan godi ein llais i dynnu sylw at yr anawsterau maen nhw'n eu hwynebu. Fe wnaethon ni addasu ein cefnogaeth, gan gynnig gwasanaethau fel galwadau fideo a WhatsApp yn ogystal â galwadau ffôn. Roedd cyllid gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi caniatáu i ni ehangu My Support Space, sef llwyfan hunan-gymorth, rhyngweithiol, a chyflwyno ein gwasanaeth sgwrsio byw er mwyn iddo fod ar gael 24/7 i bawb sy'n byw yng Nghymru a Lloegr.

Drwy gydol y flwyddyn, rydyn ni wedi codi ein lleisiau i dynnu sylw at leisiau'r bobl y mae troseddau wedi effeithio arnyn nhw ac i godi ymwybyddiaeth o'u hanghenion. Rydyn ni wedi gwneud hyn drwy gyfarfod â gwleidyddion a swyddogion polisi, ein gwaith gyda phartneriaid a chymunedau, a drwy sicrhau mwy o bresenoldeb ar y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol.

Mae sawl maes lle mae dioddefwyr wedi gweld cynnydd cadarnhaol. Mae'r rhain yn cynnwys Deddf Cam-drin Domestig newydd, mwy o gyllid tymor byr ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig a rhywiol, Cod newydd i Ddioddefwyr, a chyhoeddiad diweddar y Weinyddiaeth Gyfiawnder y bydd y llysoedd yn cael cyllid diderfyn i leihau'r achosion sydd wedi ôl-gronni.

Rydyn ni wedi sefydlu nifer o bartneriaethau pwysig eleni. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio yn Llundain i ddarparu llety a chefnogaeth i ddynion sydd wedi dioddef cam-drin domestig; gyda phartneriaid cenedlaethol eraill i gael prosesau atgyfeirio di-dor ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr terfysgaeth; a gyda Chymdeithas Yswirwyr Prydain drwy gyllid o'u cronfa gymorth Covid-19 – gan ein galluogi ni i gefnogi menywod sydd wedi dioddef gwrthdaro a cham-drin.


Thema'r adroddiad hwn yw Sicrhau bod ein lleisiau'n cael eu clywed, er mwyn dangos sut rydyn ni – dioddefwyr, tystion, goroeswyr, staff, gwirfoddolwyr a chyfeillion cefnogol – wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cefnogaeth ac wedi codi ein llais yn erbyn anghyfiawnder ac annhegwch.

Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi gweithio gyda ni eleni – diolch i'n staff a'n gwirfoddolwyr sydd wedi gorfod gweithio mewn ffordd wahanol ac mewn amgylchiadau anodd weithiau, diolch i'n cyllidwyr a'n comisiynwyr sy'n gwneud ein gwaith yn bosib, a diolch i ddefnyddwyr ein gwasanaeth, sydd wedi ymddiried ynom ni i'w cefnogi drwy gyfnod anodd iawn.



**Diana Fawcett**
Prif Swyddog Gweithredol





**Andrew Tivey**
Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr



# Gair amdanom ni

## Rydyn ni'n LLEOL

Mae ein staff a'n gwirfoddolwyr lleol, medrus yn rhan o'r cymunedau lle maen nhw'n byw ac yn gweithio. Dyma yw sylfaen y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu, ac mae hynny'n wir ers i ni gael ein sefydlu yn 1974.

Mae'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig mewn cymunedau yng Nghymru a Lloegr yn amrywio yn ôl anghenion a blaenoriaethau lleol.

Mae'r cymunedau hyn yn bwysig i ni, ac rydyn ni'n gwerthfawrogi ein rhwydweithiau a'n partneriaethau lleol gydag unigolion a sefydliadau sydd hefyd yn frwd dros gefnogi pobl y mae troseddau lleol wedi effeithio arnyn nhw.

Rydyn ni'n creu effaith gymdeithasol a gwerth cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys rhoi adnoddau arbenigol i sefydliadau bach lleol eraill (gweler tudalen 22) a datblygu gwerth cymdeithasol drwy gomisiynu (gweler tudalen 23).

## Rydyn ni'n GENEDLAETHOL

Rydyn ni'n credu bod yn rhaid i wasanaethau i ddioddefwyr fod yn deg ac ar gael yn rhwydd. Rydyn ni'n darparu rhai gwasanaethau i bobl ledled Cymru a Lloegr. Mae'r rhain yn cynnwys y Gwasanaeth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau, ein Llinell Gymorth, sydd am ddim 24/7, ein gwasanaeth sgwrsio byw a My Support Space[3].


Mae ein seilwaith cenedlaethol yn caniatáu i ni ddarparu technoleg ddiogel, safonau ansawdd cyson a gallu rhannu syniadau ac arferion gorau.

Mae ein cysylltiadau cenedlaethol yn golygu ein bod yn gallu ymchwilio i'r hyn sy'n gweithio a'u gwerthuso, yn ogystal ag arloesi a dylanwadu ar sail sylfaen dystiolaeth helaeth.

## Rydyn ni'n ANNIBYNNOL

Rydyn ni'n annibynnol ar y llywodraeth, yr heddlu, awdurdodau lleol, gwasanaethau mewnfudo a'r system cyfiawnder troseddol. Mae hyn yn hynod bwysig, gan ein bod yn gwybod nad yw rhai dioddefwyr yn ymddiried yn y system cyfiawnder troseddol ac mae eraill – pobl o gymunedau lleiafrifol neu ar y cyrion neu bobl â chyflyrau iechyd meddwl – yn wynebu rhwystrau pan ddaw i roi gwybod i'r heddlu am droseddau.

Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda'r holl sefydliadau hyn yn ogystal ag asiantaethau partner arbenigol.




3 Mae www.mysupportspace.org.uk yn adnodd ar-lein sydd wedi'i ddylunio i helpu pobl y mae troseddu wedi effeithio arnyn nhw i reoli'r effaith honno. Mae'n cynnwys canllawiau rhyngweithiol gyda thechnegau, cynghorion a gweithgareddau, yn ogystal â dyddiadur ar-lein.

## Rydyn ni'n GYNHWYSOL

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi gwneud llawer o waith er mwyn parhau i wneud ein gwasanaethau'n fwy cynhwysol. Mae hyn yn cynnwys:

- Adolygu ein proses o asesu'r effaith ar gydraddoldeb i hyrwyddo ystyriaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mor gynnar â phosib yn ystod camau dylunio gwasanaeth a newid y sefydliad.
- Llunio canllawiau (ar y cyd â'n rhwydwaith o wirfoddolwyr a staff LGBT+) i alluogi ein timau i gefnogi defnyddwyr gwasanaeth traws yn effeithiol.
- Gweminarau i staff a gwirfoddolwyr yn tynnu sylw at y rhwystrau y mae defnyddwyr gwasanaeth traws ac anabl yn eu hwynebu.
- Arolygon i ddeall safbwyntiau pobl o grwpiau lleiafrifol ac ar y cyrion ar ein llwyfan digidol, My Support Space, ac archwiliad hygyrchedd.
- Datganiad allanol sy'n ymwneud â'r mudiad Mae Bywydau Du o Bwys (BLM) a'r anghyfiawnderau yn y system cyfiawnder troseddol, gan fynegi ein hymrwymiad i gydraddoldeb hiliol yn glir.
- Sgyrsiau mewnol, gweminarau a blogiau'n cael eu postio ynghylch BLM, sgyrsiau ehangach am hil a chydraddoldeb hiliol.
- Darparu rhagor o ddeunyddiau cefnogi mewn ieithoedd heblaw am Saesneg.
- Cyflawni ymchwil ar y cyd i rwystrau o ran iaith a'r system cyfiawnder troseddol.
- Datblygu'r rhaglen i gynnwys ein defnyddwyr gwasanaeth.

**Ar gyfartaledd, roedd cyfieithydd wedi cefnogi 913 o alwadau i ddefnyddwyr gwasanaeth bob mis.**

Rydyn ni wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant eleni, ond rydyn ni'n gwybod bod mwy y gallwn ei wneud i wella'r profiad i bawb sy'n ymwneud â Cymorth i Ddioddefwyr. Beth ydyn ni'n ei wneud fel cyflogwr (gweler tudalen 60).

## Rydyn ni'n gwneud GWAHANIAETH

Rydyn ni'n sicrhau ansawdd ein holl wasanaethau drwy ein System Rheoli Ansawdd sy'n cyd-fynd â meini prawf ISO 9001.

Mae ein timau hefyd yn gweithio i ennill achrediadau allanol allweddol. Eleni, llwyddodd ein tîm yn Cumbria i ennill achrediad Respect[4] ar gyfer eu gwasanaeth i gyflawnwyr, Turning the Spotlight. Yn ogystal, roedden nhw wedi ennill achrediad LimeCulture[5] ar gyfer gwasanaethau trais rhywiol, ac roedd tîm Swydd Gaerhirfryn a gwasanaeth Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol (ISVA) Gorllewin Swydd Efrog wedi ennill yr un achrediad hefyd. Llwyddodd ein tîm yng Ngorllewin Swydd Efrog i gyflawni Marc Ansawdd Cam-drin a Thrais Domestig – Lefel Dau, a ddyfarnwyd gan Gyngor Dinas Leeds. Roedd ein timau yn Swydd Gaerhirfryn a Cumbria wedi llwyddo i gael achrediad Leading Lights ac roedd ein gwasanaethau Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) yn Luton a Gorllewin Swydd Efrog wedi cael eu hailachredu ar gyfer Leading Lights[6].

### Ar ôl cael ein help a'n cymorth roedd:


**75%** yn teimlo eu bod yn gallu ymdopi'n well

**72%** yn teimlo'n fwy diogel

**74%** yn dweud bod eu lles wedi gwella

**86%** yn teimlo bod ganddyn nhw well gwybodaeth.

Y llynedd, roedd **95%** o bobl a oedd wedi defnyddio ein gwasanaethau yn fodlon â'n gwasanaethau.



4 Mae achrediad Respect yn seiliedig ar gyfres o egwyddorion gwaith a amlinellir yn *Respect Standard*.

5 Mae Rhaglen Achrediad Annibynnol LimeCulture yn cynnwys proses chwe cham sy'n cynnwys adolygu tystiolaeth ddogfennol, cyfweliadau ac ymweliad safle. Rhagor o wybodaeth am Achrediad Annibynnol LimeCulture.

6 Mae rhaglen achredu SafeLives Leading Lights yn cynnig cyfres o safonau i wasanaethau, asiantaethau partner a chomisiynwyr i gefnogi pobl sydd wedi dioddef cam-drin domestig. Rhagor o wybodaeth am achrediad Leading Lights.


# Beth rydyn ni'n ei wneud

## Ar gyfer yr unigolyn y mae trosedd wedi effeithio arno

I nifer o bobl, gall trosedd newid bywyd. Gall arwain at drawma, strategaethau ymdopi gwael, problemau o ran diogelwch, diffyg cwsg, teimlo'n euog, teimlo'n flin a theimlo cywilydd a cholli hyder. Gall effeithio ar berthnasoedd â phartner, teulu a ffrindiau a chydweithwyr hefyd. Gall canfod eich ffordd drwy'r system cyfiawnder troseddol a gwybod beth yw eich hawliau fel rhywun sydd wedi dioddef trosedd, fod yn heriol dros ben.



**Rydyn ni'n darparu gwybodaeth a chyngor**



**Rydyn ni'n darparu cymorth emosiynol**



**Rydyn ni'n darparu cymorth ymarferol**



**Rydyn ni'n eirioli ar ran dioddefwyr**




**Rydyn ni'n helpu dioddefwyr i gael gafael ar gymorth ariannol.**

## Ar gyfer pawb y mae troseddu wedi effeithio arnyn nhw

Rydyn ni'n annibynnol ar y llywodraeth, yr heddlu, awdurdodau lleol, a'r system cyfiawnder troseddol. Mae'r annibyniaeth hon yn caniatáu i ni godi ein llais ac amddiffyn hawliau dioddefwyr, er lles pawb y mae troseddu wedi effeithio arnyn nhw, nawr ac yn y dyfodol.



**Rydyn ni'n siarad â llais gwybodus cenedlaethol**



**Rydyn ni'n tynnu sylw at leisiau'r dioddefwyr**



**Rydyn ni'n helpu i siapio deddfwriaeth, polisïau ac ymarfer**



**Rydyn ni'n cydweithio â sefydliadau eraill.**



YN ÔL I'R CYNNWYS

# Gwasanaethau Cymorth i Ddioddefwyr yng Nghymru a Lloegr

## Gwasanaethau lleol a chenedlaethol


Mae 20 o Reolwyr Ardal yn arwain gwasanaethau lleol mewn 30 o siroedd ledled Cymru a Lloegr. Maen nhw'n cael eu hariannu gan eu Comisiynydd Heddlu a Throseddu/ Swyddfa'r Maer lleol a chyllidwyr lleol eraill, ac yn sicrhau bod gwasanaethau hanfodol i gefnogi dioddefwyr yn cael eu darparu, sy'n bodloni anghenion a blaenoriaethau lleol. Rydyn ni'n cynnig gwasanaeth y tu allan i oriau a chadernid, ac rydyn ni'n cynnig gwasanaeth ffôn 24/7 a gwasanaeth sgwrsio byw a mynediad at wasanaeth hunangymorth ar-lein (My Support Space).

Mae Rheolwyr Ardal yn rheoli timau o wirfoddolwyr a staff medrus sy'n byw yn y cymunedau lle maen nhw'n gweithio. Dyma yw sylfaen y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu, ac mae hynny'n wir ers i ni gael ein sefydlu yn 1974.

Rydyn ni hefyd yn darparu nifer o wasanaethau cenedlaethol, y Gwasanaeth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau (Cymru a Lloegr), Canolfan Genedlaethol Adrodd am Droseddau Casineb a Chymorth Cymru (Cymru yn unig) iMatter a Safe Spaces.

## Gwasanaethau annibynnol i ddioddefwyr

Rydyn ni'n credu y dylai pob unigolyn y mae troseddu yn effeithio arno gael gafael ar wasanaethau annibynnol i ddioddefwyr. Er mwyn atal loteri cod post i ddioddefwyr, mae ein holl wasanaethau cenedlaethol ar gael i unrhyw un sydd eu hangen ledled Cymru a Lloegr, gan gynnwys yn y 12 sir lle nad ydyn ni wedi cael ein comisiynu i ddarparu gwasanaeth lleol.




Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn darparu gwasanaethau cenedlaethol.
Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn darparu gwasanaethau lleol a chenedlaethol.

# Ein gwasanaethau

**Rydyn ni'n darparu amrywiaeth eang o wasanaethau sy'n ymwneud â throseddau penodol a gwasanaethau sy'n ymwneud â nifer o droseddau. Mae ein gwasanaethau i gyd yn gweithio'n agos â sefydliadau partner er mwyn cyrraedd pob cymuned a sicrhau bod y rhai y mae troseddu wedi effeithio fwyaf arnyn nhw yn cael y cymorth a'r gefnogaeth fwyaf priodol. Dyma rai enghreifftiau:**

## Cam-drin domestig

Rydyn ni'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau i helpu pobl sydd wedi profi cam-drin domestig, gan gynnwys pan nad yw'r heddlu wedi eu hysbysu. Rydyn ni'n cydnabod mai menywod yw'r mwyafrif helaeth o'r dioddefwyr, ond rydyn ni hefyd yn cefnogi dynion, pobl draws a phobl anneuaidd.

Y cleient sy'n arwain ein cefnogaeth, ac mae'n seiliedig ar anghenion yr unigolyn. Mae ein Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVAs) a'n gweithwyr achosion Cam-drin Domestig yn cynnal asesiad risg manwl ac yn datblygu cynllun diogelu a chefnogi unigol gyda'r nod o leihau risg. Rydyn ni'n eirioli ag amrywiaeth o asiantaethau, gan gynnwys asiantaethau iechyd, tai, sifil a throseddol.

Mewn rhai rhannau o'r wlad, rydyn ni'n darparu rhaglenni gwirfoddol i gyflawnwyr i helpu pobl i ddeall sut beth yw perthynas iach.

## Trais rhywiol

Mae ein Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol (ISVAs) yn helpu pobl sydd wedi cael eu treisio'n rhywiol neu sydd wedi dioddef trosedd rywiol. Mae hyn yn cynnwys helpu'r dioddefwyr i gymryd y camau sy'n iawn iddyn nhw, eu cefnogi i ddewis a ydyn nhw am adrodd am y drosedd ai peidio, cydlynu â'r gwasanaeth iechyd a gwasanaethau cymorth eraill, eu helpu i ganfod eu ffordd drwy'r system cyfiawnder troseddol.

## Gwasanaeth yn dilyn Lladdiadau

Rydyn ni'n darparu'r Gwasanaeth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau yng Nghymru a Lloegr, i gefnogi teuluoedd sy'n galaru yn dilyn llofruddiaeth a dynladdiad gartref a thramor. Swyddog cyswllt teulu yr heddlu sy'n cynnig y gwasanaeth i'r teuluoedd sy'n galaru, neu'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, neu gall teuluoedd atgyfeirio eu hunain. Rydyn ni'n darparu cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i deuluoedd sy'n galaru, fel help i ganfod eu ffordd drwy'r system cyfiawnder troseddol; rhoi gwybod i asiantaethau am y farwolaeth; deall meddyliau, ymddygiad ac ymatebion i brofedigaeth, gan gynnwys atgyfeirio ar gyfer cwnsela arbenigol.

## Ymddygiad gwrthgymdeithasol

Rydyn ni'n eirioli dros ddioddefwyr drwy siarad â gwahanol asiantaethau ar eu rhan, yn eu helpu i ddeall y broses o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn rhoi cyngor ar ddiogelwch personol a diogelwch y cartref, yn rhoi'r adnoddau angenrheidiol i ddioddefwyr allu adrodd am drosedd yn effeithiol, ac yn eu cefnogi drwy'r broses gyfryngu ac yn y llys.

## Twyll

Rydyn ni'n cefnogi'r rheini sydd wedi cael eu twyllo i ymdopi ag effaith emosiynol, ariannol ac ymarferol y drosedd. Rydyn ni'n helpu i atal pobl rhag cael eu twyllo eto ac yn rhannu gwybodaeth â phartneriaid, sefydliadau cymunedol ac unigolion er mwyn ceisio cadw pobl yn ddiogel.

## Troseddau casineb

Rydyn ni'n cefnogi'r rheini sydd wedi dioddef troseddau casineb. Mae hyn yn cynnwys y tîm sy'n rhedeg Canolfan Genedlaethol Adrodd am Droseddau Casineb a Chymorth Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r ganolfan yn gweithredu canolfan adrodd trydydd parti lle gall Cymorth i Ddioddefwyr adrodd am droseddau casineb i'r heddlu ar ran y dioddefwr, neu wneud cofnod o hynny â'r ganolfan nes bydd yn teimlo'n barod i adrodd am y drosedd.

## Nifer o droseddau

Rydyn ni'n cael ein comisiynu'n lleol i ddarparu gwasanaethau sy'n ymwneud â nifer o droseddau, sy'n eang o ran cwmpas ac sydd ar gael i bobl leol, pa bynnag drosedd maen nhw wedi'i dioddef.

Mae ein cefnogaeth yn cael ei theilwra i'r unigolyn, ac mae'n cynnwys cynnig gwybodaeth a chyngor, eirioli (gan gynnwys drwy'r broses yn y llys), helpu i gael gafael ar gymorth ariannol, cymorth emosiynol, cymorth ymarferol gan gynnwys o ran diogelwch personol, cael mynediad at gyfiawnder adferol ac atgyfeirio at asiantaethau eraill.



YN ÔL I'R CYNNWYS

# Effaith Covid-19 a mudiadau cyfiawnder troseddol ar droseddu

**Roedd nifer cyffredinol y bobl a gafodd eu hatgyfeirio, yr oedd troseddu wedi effeithio arnyn nhw ac a oedd mewn cyswllt â gwasanaethau Cymorth i Ddioddefwyr ac wedi cael cynnig cymorth yn 2020/21[6] yn debyg i'r nifer yn y flwyddyn flaenorol, er bod rhywfaint o wahaniaeth o ran natur y troseddu a'r tueddiadau yn ystod y flwyddyn.**

**Er bod Cymorth i Ddioddefwyr wedi cynnig cymorth i nifer tebyg o bobl, roedd nifer y bobl roedden ni'n eu cefnogi wedi cynyddu 36%.[7] Rydyn ni'n credu bod sawl rheswm pam fod pobl yn dewis cael gafael ar ein gwasanaethau – ac mae'r rhain yn berthnasol i'r math o droseddu a brofwyd ac effaith cyfyngiadau'r cyfnodau clo (gweler tudalen 13).**

Ar ôl i nifer y dioddefwyr a oedd yn cael gafael ar wasanaethau Cymorth i Ddioddefwyr ostwng yn wreiddiol ar ddechrau'r cyfnod clo ym mis Mawrth 2020, roedd nifer yr atgyfeiriadau at y gwasanaethau'n cynyddu'n sylweddol o un wythnos i'r llall yn ystod yr haf wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio, ac yna ar ddechrau'r flwyddyn ysgol. Fodd bynnag, fe welsom ostyngiad graddol yn nifer y dioddefwyr a oedd yn cael gafael ar wasanaethau Cymorth i Ddioddefwyr eto yn yr hydref, gyda rhagor o gyfnodau clo a chyfyngiadau lleol, yna lefelau is yn ystod y Nadolig a chyfnod clo arall yn gynnar yn 2021. Wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio o fis Mawrth 2021, mae Cymorth i Ddioddefwyr wedi gweld cynnydd mewn atgyfeiriadau. Mae hyn yn duedd rydyn ni'n disgwyl ei gweld yn parhau wrth i ragor o reolau gael eu llacio.

Mae atgyfeiriadau ar gyfer rhai troseddau, fel dwyn a bwrgleriaeth wedi gostwng yn sylweddol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol/y lefelau cyn y pandemig (-36% a -49% yn y drefn honno)[8].

I'r gwrthwyneb, mae atgyfeiriadau ar gyfer twyll wedi cynyddu'n sylweddol (59%) a dyma oedd yn tueddu i fod uchaf yn ystod y cyfnodau clo. Mae'r cynnydd mewn achosion o dwyll yn deillio o dwyll yn ymwneud â siopa ar-lein, hacio cyfrifon e-bost a'r cyfryngau cymdeithasol, sieciau, cardiau credyd neu ddebyd, cyfrifon banc ar-lein, neu chwilio am gariad neu ramant.

Roedd atgyfeiriadau ar gyfer cam-drin domestig wedi cynyddu ar y cyfan 12%, fodd bynnag, roedd y lefelau'n amrywio drwy gydol y flwyddyn, gyda gostyngiad yn ystod cyfnodau o gyfyngiadau, a chynnydd wedyn pan fyddai'r rhain yn dod i ben. I nifer o bobl a oedd yn dioddef cam-drin domestig, roedd cyfnodau clo yn golygu bod yn gaeth yn agos at y cyflawnwr, heb fawr o gyfle diogel i gael gafael ar wasanaethau cefnogi.

Roedd staff a oedd yn cefnogi pobl a oedd yn dioddef cam-drin domestig yn gweld bod cyflawnwyr yn defnyddio'r ffaith y gallai rhywun gael ei gosbi am dorri rheolau cyfyngiadau Covid-19 fel ffordd o reoli'r dioddefwr os oedd yn dewis gadael y cartref. Roeddem yn gweld y byddai cyflawnwyr yn dweud celwydd am orfod hunanynysu oherwydd Covid-19 fel na fyddai dioddefwyr yn gadael y tŷ. Hefyd, roedd achosion o drais yn fwy dwys, yn digwydd yn amlach ac yn fwy difrifol yn ystod y cyfnod clo. Roedd y cam-drin yn gallu parhau heb i neb weld hynny.

*'Roedd pobl yn gaeth yn eu cartrefi gyda'r rhai oedd yn eu cam-drin. Doedd dim rheswm i adael y tŷ – ee i nôl y plant, i fynd at y meddyg. Roedd yn anoddach cael gafael ar y cleientiaid. Roedd sesiynau cwnsela wedi cael eu gohirio hefyd.'*

**Gweithiwr Cymorth, Cymorth i Ddioddefwyr**

6 Yn 2020–21 roedd ein timau o staff a gwirfoddolwyr ymroddedig mewn cysylltiad â **710,403** o bobl yr oedd troseddu wedi effeithio arnyn nhw.
7 Yn 2020–21 roedd Cymorth i Ddioddefwyr wedi cefnogi **153,100** o ddioddefwyr troseddau, **36%** yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.
8 Mae'r newid canrannol ar gyfer yr holl newidiadau mewn math o droseddu wedi'i ddefnyddio fel sylfaen ar gyfer cymharu. Mae'r sylfaen yn cynnwys data o Ionawr i Chwefror 2020.

Mae atgyfeiriadau ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi bod yn uwch na'r lefelau cyfartalog drwy gydol y pandemig (28%) ond roedden nhw'n tueddu i fod ar eu huchaf yn ystod y cyfnodau pan oedd y cyfyngiadau wedi'u llacio. Roedd nifer o'n staff a'n gwirfoddolwyr yn tynnu sylw at gynnydd yn yr achosion a oedd yn ymwneud â chymdogion yn ystod y cyfnodau clo. I'r bobl hyn, roedd yr ymddygiad gwrthgymdeithasol yn teimlo'n ddwys, oherwydd doedden nhw ddim yn gallu gadael eu cartref i ddianc rhag y cam-drin a'r erlid ac roedden nhw'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i gymorth neu i gael help gan y cyngor.

*'Doedd Cynghorau ddim yn gallu symud ymlaen ag achosion gan fod y Llysoedd Sirol wedi cau. Roedd oedi gydag achosion ac roedd dioddefwyr yn gorfod aros am orchmynion gwaharddeb neu droi allan. Roedd dioddefwyr yn ei chael hi'n anodd iawn byw y drws nesaf i bobl, a hwythau wedi dod mor agos i gael gorchymyn i'w gwarchod, a gorfod ymdopi â'r holl aros tra roedd y cyflawnwyr yn dal ati i aflonyddu arnyn nhw, neu waeth, a phopeth arall ar stop.'*

**Gweithiwr Cymorth**

Y llynedd, gwelwyd cyfnodau lle roedd llawer o atgyfeiriadau ar gyfer troseddau casineb, yn arbennig troseddau casineb a oedd yn ymwneud â hil a chenedligrwydd. Ym Mehefin a Gorffennaf 2020 pan ddechreuodd protestiadau Mae Bywydau Du o Bwys dynnu sylw at drais yr heddlu tuag at bobl dduon, gan arwain at sgyrsiau llawer ehangach am hil a hiliaeth, roedd atgyfeiriadau 50% yn uwch na'r cyfartaledd.

Fe wnaethon ni ryddhau datganiad yn amlinellu'r gwahaniaethu y mae pobl dduon yn ei brofi yn y system cyfiawnder troseddol, yn ogystal â'r ffaith fod nifer o aelodau'r cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu targedu ar-lein neu'n bersonol, oherwydd eu hil. Fe wnaethon ni ddefnyddio ein llais i geisio annog pobl a oedd angen cymorth neu'n dymuno cael cymorth i ddod ymlaen.

Roedd lefelau uchel o atgyfeiriadau troseddau casineb ym mis Mawrth 2021 hefyd, o gwmpas adeg mudiadau #StopAsianHate yn ymwneud â'r pandemig a'r sylw i dreial y sawl a gyhuddwyd o ladd George Floyd. Roedd y digwyddiadau hyn wedi helpu i godi ymwybyddiaeth a grymuso pobl i ddod ymlaen a gofyn am gymorth.

Doedd lefelau cyffredinol atgyfeiriadau trais rhywiol ddim wedi newid yn sylweddol. Fodd bynnag, bu newidiadau arwyddocaol yn ystod y flwyddyn, ac ar un adeg ym mis Mawrth 2021, roedd lefelau'r atgyfeiriadau 80% yn uwch na'r cyfartaledd. Digwyddodd hyn ar ôl nifer o ddigwyddiadau, ymgyrchoedd a thrafodaethau cyhoeddus, gan gynnwys Wythnos Ymwybyddiaeth o Gam-drin Rhywiol a Thrais Rhywiol, ymgyrch trais rhywiol y llywodraeth, Everyone's Invited[8] a newyddion a thrafodaethau ar-lein am drais yn erbyn menywod a merched.

Beth bynnag fo'r math o drosedd a brofwyd, mae'r darlun cyffredinol ar gyfer dioddefwyr troseddau wedi bod yn un llwm; mae troseddau wedi dwysau'r teimladau o straen ac unigrwydd yr oedd pobl yn eu profi yn ystod y pandemig, yn ogystal ag effeithio ar sut roedd pobl yn ymdopi.

*'Roedd iechyd meddwl a gwytnwch y rhai a oedd wedi bod yn dod yn eu blaenau'n dda yn dechrau dirywio. Roedd y rhai a oedd yn cael cymorth yn dymuno siarad am gyfnodau hwy, ac roedd nifer yn ddagreuol ac yn ofidus yn ystod yr alwad. Roedd rhai yn defnyddio'r cyfnod clo fel rheswm i beidio â gadael eu cartref – roedden nhw'n gwybod y gallen nhw fynd i'r siop ac ati, ond oherwydd bod ofn arnyn nhw beth bynnag, roedden nhw'n defnyddio hyn fel rheswm arall i beidio â mynd.'*

**Gweithiwr Cymorth**

Er mwyn ymateb i hyn, fe wnaethon ni ddatblygu pecyn cymorth iechyd meddwl er mwyn deall anghenion defnyddwyr gwasanaeth a oedd yn dioddef iechyd meddwl gwael yn ystod y cyfnod clo. Cafodd hwn ei greu mewn ymgynghoriad â'n grŵp rhwydwaith Iechyd Meddwl a Lles.



7 Ymgyrch sy'n ymateb i gynnydd mewn casineb yn erbyn pobl Asiaidd yw #StopAsianHate – credir bod hynny, yn rhannol, yn gysylltiedig â phandemig Covid-19 a'i darddiad yn China.

8 Roedd Everyone's Invited, llwyfan ar-lein lle mae goroeswyr yn rhannu eu straeon, yn tynnu sylw at drais rhywiol a threisio, yn arbennig mewn lleoliadau fel ysgolion, colegau a phrifysgolion. Mae straeon yn cynnwys tynnu lluniau i fyny sgert rhywun, rhannu lluniau personol heb ganiatâd, aflonyddu rhywiol, ymosodiadau rhywiol, a threisio.

## Profiadau o'r system cyfiawnder troseddol

Roedd y cyfnod clo wedi arwain at rwystrau ychwanegol o ran cyswllt dioddefwyr â'r system cyfiawnder troseddol. Tynnodd dioddefwyr sylw staff a gwirfoddolwyr at y ffaith y bu oedi wrth adrodd am droseddau a chael ymateb gan yr heddlu. Mewn rhai achosion, maen nhw wedi aros oriau am ymateb i alwadau 999 a oedd yn ymwneud â thrais domestig, ac mae eraill wedi cael eu hannog i fynd ar drywydd sifil yn hytrach na throseddol, er enghraifft, gwneud cais am orchymyn peidio ag ymyrryd, yn hytrach na chychwyn achosion cyfiawnder troseddol neu geisio erlyn.

Mae nifer o ddioddefwyr wedi rhoi gwybod am ddyddiadau llys yn cael eu canslo ac oedi gyda threialon, gyda rhai wedi'u haildrefnu ar gyfer 2023.

## Addasu ein gwasanaethau

Daeth ein cymunedau ymarfer, sy'n cynnwys staff arbenigol sy'n gweithio gyda throseddau penodol o bob cwr o Gymru a Lloegr, at ei gilydd i helpu i addasu ein gwasanaethau yn unol â natur a phrofiadau newidiol o droseddu yn ystod cyfnod clo Covid-19. Fe wnaethon ni lunio llawer o ddeunyddiau cyfarwyddyd i fynd i'r afael a'r anghenion newydd roedden ni'n eu gweld gan y bobl yr oedd y sefyllfa wedi effeithio arnyn nhw fwyaf. Roedd y rhain yn cynnwys pobl a oedd yn gaeth mewn perthnasoedd camdriniol, gwybodaeth i unigolion a grwpiau cymunedol ar y mathau newydd o dwyll a sgamiau cysylltiedig â Covid-19, a chanllawiau ar y nifer cynyddol o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau casineb.

Fe wnaethon ni symud y rhan fwyaf o'n cefnogaeth ar-lein, gan gynnig gwasanaethau fel galwadau fideo yn ogystal â galwadau ffôn. Roedd cyllid gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi caniatáu i ni ehangu My Support Space, sef llwyfan hunangymorth, rhyngweithiol, a chyflwyno ein gwasanaeth sgwrsio byw er mwyn iddo fod ar gael 24/7 i bawb sy'n byw yng Nghymru a Lloegr.[9]

Mae amgylchiadau eithriadol sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau i geisio mynd i'r afael â'r pandemig wedi golygu bod rhagor o ddioddefwyr troseddau wedi bod angen cefnogaeth gan wasanaethau Cymorth i Ddioddefwyr.



Yn 2020–21 roedd Cymorth i Ddioddefwyr wedi cefnogi 153,100 o ddioddefwyr troseddau, 36% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Roedd hyn yn cynnwys:

- **23% yn fwy o oroeswyr trais rhywiol**
- **33% yn fwy o oroeswyr cam-drin domestig**
- **39% yn fwy o ddioddefwyr troseddau casineb**
- **52% yn fwy o ddioddefwyr twyll.**

Mae gwybodaeth gan ein gwasanaethau yn awgrymu nifer o resymau dros y cynnydd hwn yn nifer y dioddefwyr a gefnogwyd. Mae rhai o'r newidiadau y mae Cymorth i Ddioddefwyr wedi'i wneud wrth gysylltu â dioddefwyr yn ystod y cyfnod, fel rhagor o ffyrdd o gysylltu â gwasanaethau, a'r dioddefwyr yn gallu codi'r ffôn i gael sgwrs, wedi arwain at gynnydd yn nifer y bobl mae staff a gwirfoddolwyr Cymorth i Ddioddefwyr wedi gallu eu helpu. Mae cynnydd yng nghyfran y dioddefwyr sy'n cael gafael ar wasanaethau Cymorth i Ddioddefwyr ar gyfer troseddau â mwy o niwed, fel trais rhywiol, cam-drin domestig a throseddau casineb, yn ffactor sy'n cyfrannu at hyn hefyd. Yn ogystal â'r math o drosedd a brofwyd, mae llai o rwydweithiau cymdeithasol a chyfleoedd i wneud gweithgareddau cadarnhaol a mwy o unigrwydd ac anawsterau iechyd meddwl, wedi arwain at fwy o ddioddefwyr yn gofyn am gefnogaeth Cymorth i Ddioddefwyr.

Er gwaethaf yr heriau a ddaeth yn sgil cyfyngiadau'r cyfnod clo, mae timau lleol yn parhau i fod mewn cyswllt â sefydliadau ar lawr gwlad, partneriaid a grwpiau cymunedol, drwy ddigwyddiadau rhithiol a'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn gallu cyrraedd dioddefwyr a chodi ymwybyddiaeth o'r ffaith fod gwasanaethau Cymorth i Ddioddefwyr yn dal i fod ar gael.

VS

My support space

9 Yn 2020–21 atebwyd **26,663** o sgyrsiau byw a chofrestrodd **5,207** o ddefnyddwyr ar My Support Space.

Roedd y rhesymau pam fod pobl yr oedd troseddu wedi effeithio arnyn nhw wedi dewis defnyddio'r adnodd sgwrsio byw yn cynnwys:

- Mae arnyn nhw ofn/dydy hi ddim yn ddiogel iddyn nhw ffonio
- Mae sgwrsio byw yn haws ar gyfer y math yma o sgwrs
- Does ganddyn nhw ddim preifatrwydd i ffonio/ dydyn nhw ddim yn gallu ffonio
- Mae'n well ganddyn nhw'r gwasanaeth sgwrsio byw ar-lein
- Maen nhw'n gallu defnyddio'r gwasanaeth sgwrsio byw 24/7
- Mae sgwrsio byw yn fwy hygyrch i'r rhai sydd â nam ar y clyw neu ar y lleferydd
- Dydyn nhw ddim yn gallu ffonio oherwydd nad oes ganddyn nhw ffôn.



*'Alla i ddim ffonio unrhyw rifau heno oherwydd gallai e gerdded i mewn unrhyw funud – rydyn ni'n aros i bob dim ddechrau eto.'*

**Goroeswr cam-drin domestig**

**Yn 2020–21, atebodd Cymorth i Ddioddefwyr 26,663 o sgyrsiau byw.**

## Defnyddiodd Anna* ein gwasanaeth sgwrsio byw i ofyn am gymorth

**Cysylltodd Anna (15) â Chymorth i Ddioddefwyr drwy ein gwasanaeth sgwrsio byw. Eglurodd fod dyn wedi tynnu lluniau rhywiol gignoeth ohoni, ac roedd bellach yn bygwth eu postio ar y cyfryngau cymdeithasol pe na byddai'n dilyn ei gyfarwyddiadau. Roedd Anna yn poeni am beth fyddai pobl yn ei feddwl ohoni petai'r lluniau hyn yn cael eu postio ar-lein. Roedd arni ofn y dyn yma, a doedd hi ddim yn gwybod beth i'w wneud. Ceisiodd adrodd am y digwyddiad drwy gysylltu â'r heddlu ar 101, ond roedd y rhif yn brysur a doedd hi ddim wedi gallu mynd drwodd.**

Cefnogodd aelod o staff Cymorth i Ddioddefwyr Anna i roi gwybod am y drosedd ar-lein, tra roedden nhw'n dal yn sgwrsio'n fyw. Roedd hi hefyd yn gallu asesu pa mor ddiogel oedd Anna ac egluro beth y gallai ei ddisgwyl gan y system cyfiawnder troseddol, a pha gymorth pellach oedd ar gael ar-lein ac yn lleol.

Roedd hi'n gallu treulio amser yn gwrando ar Anna ac yn tawelu ei meddwl, gan ddweud ei bod wedi cymryd cam cadarnhaol drwy ofyn am gymorth a siarad am yr hyn oedd yn digwydd.

Roedd hi'n gallu sicrhau Anna nad hi oedd ar fai, nad oedd hi wedi gwneud unrhyw beth o'i le, ac y gallai ddefnyddio'r gwasanaeth sgwrsio byw eto, unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos.

* Mae'r enw wedi'i newid i warchod yr unigolyn.

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

## Llwyddiannau a pherfformiad

### Fe wnaethon ni ddweud y byddem yn grymuso rhagor o bobl i deimlo'n fwy diogel drwy ddarparu gwasanaeth cymorth ac eirioli arbenigol, ac i symud y tu hwnt i effaith y niwed maen nhw wedi'i brofi drwy:

**Ehangu amrywiaeth a graddfa ein gwasanaethau i bobl ifanc sy'n gysylltiedig â thrais difrifol, gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gangiau, a throseddau eraill niwed uchel.**

#### Gwasanaeth Cam-drin Domestig Llundain


Roedd gwasanaeth Cam-drin Domestig Llundain ar gyfer plant a phobl ifanc wedi cefnogi **159** o bobl ifanc 4–17 oed a oedd wedi profi neu fod yn dyst i gam-drin domestig.

Nod y gwasanaeth, a gafodd ei gyllido fel cynllun peilot blwyddyn gan yr Uned Lleihau Trais, oedd darparu cymorth cofleidiol i'r teulu cyfan. Roedd y gwasanaeth yn darparu eiriolwr i bob person ifanc, a oedd yn deall ei anghenion ac yn ei gefnogi i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau i'w helpu i ganfod ei ffordd drwy'r amgylchedd heriol. Roedd yr eiriolwyr yn darparu ymyrraeth arbenigol un-i-un wedi'i theilwra i anghenion yr unigolyn, er mwyn ceisio lleihau effaith emosiynol bod yn dyst i drais domestig.

Cynhaliwyd gwerthusiad o'r prosiect peilot. Roedd y plant a'r bobl ifanc a'r rhieni diogel a gymerodd ran yn y gwerthusiad yn dweud pa mor fuddiol roedd y gwasanaeth wedi bod ac yn sôn am y newidiadau cadarnhaol roedden nhw wedi'u gweld. Bydd canfyddiadau'r gwerthusiad yn cael eu cynnwys mewn unrhyw ddatblygiadau yn y maes gwaith hwn yn y dyfodol.



#### Gwasanaeth Eiriolwyr Ieuenctid Llundain




Roedd ein Gwasanaeth Eiriolwyr Ieuenctid yn gweithio yn y bwrdeistrefi gyda'r cyfraddau uchaf o drais ieuenctid yn Llundain, ac yn darparu cymorth cyfrinachol i 67 o blant a phobl ifanc rhwng 10 a 24 oed, a oedd wedi dioddef neu wedi bod yn dystion i drais ieuenctid difrifol.

Caiff Eiriolwyr Ieuenctid eu cydleoli a'u cynnwys gyda gwasanaethau cymunedol lleol, gan weithio gyda phartneriaid awdurdodau lleol hefyd i ddarparu ymateb cydgysylltiedig ar ôl digwyddiad o drais ieuenctid difrifol.

Mae pobl ifanc yn cael eu hatgyfeirio'n uniongyrchol at y gwasanaeth gan yr heddlu, gwasanaethau cymunedol ac asiantaethau eraill, neu'n gallu atgyfeirio eu hunain. Yna, bydd Eiriolwyr Ieuenctid yn darparu cymorth un-i-un i ddioddefwyr a thystion trais ieuenctid, yn cynnal gwaith grŵp, yn codi ymwybyddiaeth, sesiynau ymyrraeth grŵp ac yn ymgysylltu â'r gymuned.

Y nod yw cefnogi pobl ifanc i ymdopi a gwella mewn ffordd sy'n eu galluogi i ddatblygu cydnerthedd a'r adnoddau sydd eu hangen arnyn nhw drwy gydol eu bywydau. Ar ôl cael cymorth, roedd y bobl ifanc yn dweud eu bod wedi gwneud cynnydd o ran eu teimladau a'u hymddygiad, eu hyder a'u hunan-barch, a theimlo'n ddiogel.

Ym mis Ebrill 2021, daeth y gwasanaeth ar gael ar draws Llundain, gan ddarparu cymorth i bobl ifanc o bob un o fwrdeistrefi Llundain, a oedd yn galaru ar ôl i rywun gael ei ladd o ganlyniad i drais ieuenctid difrifol.

## Nest Lancashire

Roedd ein tîm yn Swydd Gaerhirfryn wedi bod yn cynnal hyfforddiant a chynlluniau i gefnogi plant a phobl ifanc a oedd yn gysylltiedig â throseddau niwed uchel. Roedd hyn yn cynnwys darparu sesiynau addysgol mewn partneriaeth â Heddlu Swydd Gaerhirfryn a J-J Effect[10] yn rhybuddio pobl am beryglon troseddau cyllell.

Yn ddiweddar, cwblhaodd dau aelod o'r tîm eu hachrediad Cynghorydd Arbenigol Pobl Ifanc ar Drais. Mae hyn wedi gwella sut rydyn ni'n cefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl mawr o gam-drin, gan gynnwys cam-drin domestig a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gangiau.

Mae tîm NEST yn gweithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid gan gynnwys y Tîm Camfanteisio Troseddol. Eleni, rydyn ni wedi gweithio gyda nhw i gefnogi 15 o bobl ifanc mewn sefyllfaoedd niwed uchel, a doedd nifer ohonyn nhw ddim yn ystyried eu hunain yn ddioddefwyr. Helpodd yr ymyriadau grŵp i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau i ddioddefwyr a'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr.

## Cafodd **Asifa*** ei hysbrydoli gan y gefnogaeth a ddarparwyd, ac mae hi bellach yn dymuno helpu pobl eraill

**Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Support Southwark wnaeth atgyfeirio Asifa ar ôl i rywun ymosod arni y tu allan i'w hysgol. Roedd y digwyddiad wedi achosi llawer o drawma iddi ac wedi gwneud iddi deimlo'n agored i niwed ac yn anniogel. Fyddai hi ddim yn gadael ei hardal leol, heblaw am i fynd i'r ysgol ac i'r llys, a fyddai hi ddim yn teithio ar ei phen ei hun.**

Doedd Asifa ddim yn teimlo ei bod hi'n gallu siarad â'i theulu am sut roedd hi'n teimlo. Roedd hi'n teimlo'n unig ac yn ynysig. Caniataodd yr eiriolwr ieuenctid iddi fwrw ei bol a mynegi ei phryderon, yn ogystal â rhoi cyngor iddi ynghylch dweud wrth ei ffrindiau a'i theulu sut roedd hi'n teimlo.

Roedd gan Asifa hanes o deimlo'n isel, roedd hi'n teimlo'n orbryderus ac yn ofnus ar ôl y digwyddiad, ac roedd hi wedi colli rhywfaint o'i hunanhyder. Roedd yr eiriolwr ieuenctid yn gallu dysgu rhai technegau ymdopi iddi, ac roedd hynny'n ei hannog i gymryd camau bach. Gyda'i gilydd, fe wnaethon nhw weithio ar gynlluniau diogelwch – gan roi cyngor ar ddiogelwch ar y stryd i fenywod ac eitemau diogelwch personol.

* Mae'r enw wedi newid i warchod yr unigolyn.

Defnyddiwyd dull gweithredu ar sail trawma drwy gydol y broses, yn ogystal â sgiliau cyfweld cymhellol. Fe wnaethon nhw annog Asifa i ddatblygu ei nodweddion cadarnhaol er mwyn rhoi hwb i'w hunanhyder ac fe wnaethon nhw drafod ei nodau, yn arbennig gan ei bod yn teimlo ei bod yn dymuno gwneud yn dda yn ei arholiadau TGAU ac yn dymuno mynd ymlaen i astudio ar gyfer Safon Uwch.

Roedd yr eiriolwr ieuenctid wedi darparu allgymorth cyn y treial a bu mewn cysylltiad â'r Llys Ynadon a'r Uned Gofal Tystion i sicrhau bod mesurau arbennig ar waith pan fyddai'n mynd i'r llys.

Mae Asifa wedi magu hyder a hunan-barch. Mae hi bellach yn gallu teithio ar ei phen ei hun, ac mae ei pherthynas â'i mam wedi gwella hefyd. Cafodd Asifa ei hysbrydoli gan y gefnogaeth a ddarparwyd, ac mae hi bellach yn dymuno helpu pobl eraill. Mae hi nawr yn gwirfoddoli fel gweithiwr cymorth.



10 Lansiwyd J-J Effect gan Byron, brawd Jon-Jo Highton a gafodd ei drywanu i farwolaeth yn 2014. Ers yr ymosodiad, mae Byron wedi ymgyrchu yn erbyn troseddau cyllell er mwyn ceisio arbed unrhyw deulu arall rhag dioddef yr un trawma ag ef.

## Datblygu a darparu ein gwasanaethau arbenigol i weithio gyda theuluoedd a chyflawnwyr i atal mwy o gam-drin domestig

### Rhaglen Spot and Stop Domestic Abuse

Ym mis Rhagfyr, cawsom gyllid tair blynedd gan Gronfa Gymorth Covid-19 Cymdeithas Yswirwyr Prydain, ar gyfer rhaglen waith integredig i atal cam-drin domestig. Elfen fwyaf arwyddocaol y gwaith yw datblygu a darparu rhaglen iMatter.

Mae iMatter yn rhaglen i fenywod sydd mewn perthnasoedd camdriniol, sy'n eu cefnogi i wneud newidiadau cadarnhaol i'w perthnasoedd. Mae'r rhaglen wedi'i dylunio ar gyfer grwpiau o hyd at 12 o fenywod, a bydd staff Cymorth i Ddioddefwyr sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig yn hwyluso'r sesiynau ac yn tywys y menywod drwy amrywiaeth o bynciau, gan ganolbwyntio ar berthnasoedd iach. Mae'r rhaglen yn cael ei darparu drwy gyfrwng yr ieithoedd canlynol: Cymraeg, Saesneg, Wrdw, Bengaleg, Pwyleg a Gwjarati.

Mae'r rhaglen iMatter yn defnyddio elfennau o raglenni eraill llwyddiannus a ddarparwyd gan Cymorth i Ddioddefwyr yn Cumbria a Swydd Stafford. Dechreuwyd cyflwyno'r rhaglen genedlaethol ym mis Ebrill 2021.

Mae elfennau eraill o'r rhaglen yn cynnwys datblygu canllawiau i bobl sy'n cefnogi ffrindiau neu deulu sy'n profi cam-drin domestig ar My Support Space (gweler tudalen 24) a sgwrsio byw 24/7 i bobl sy'n dioddef cam-drin domestig.

### Rhaglen llety ar gyfer dynion sy'n dioddef cam-drin domestig




Mewn ymateb i'r nifer cynyddol o achosion o gam-drin domestig yn ystod y cyfnod clo, llwyddodd y gwasanaeth yn Llundain i sicrhau cyllid ymateb brys i ddarparu llety a chymorth i ddynion a oedd yn ceisio dianc rhag cam-drin domestig.

Dechreuodd y rhaglen ym mis Mehefin 2020 mewn partneriaeth â Respect, Shelter a Nacro, dan arweiniad Cymorth i Ddioddefwyr, i gefnogi dynion a oedd yn dioddef cam-drin domestig yn Llundain. Hyd yma, rydyn ni wedi cefnogi 38 o ddioddefwyr, ac wedi helpu 22 ohonyn nhw i gael llety argyfwng.

Dyma'r cyllid cyntaf o'i fath yn Llundain a oedd yn darparu gwasanaethau cofleidiol, gan gynnwys bwyd a hanfodion eraill, cefnogaeth iechyd meddwl a chorfforol, cefnogaeth i gael gafael ar ofal cymdeithasol a thai yn y tymor hwy, a chyngor cyfreithiol.

Roedd **59%** o gleientiaid o gymunedau BAME

Roedd **35%** o gyflawnwyr yn bartner neu'n gyn-bartner

Roedd **72%** o gyflawnwyr yn fenywod

Mae'r prosiect hwn wedi golygu bod dynion a oedd yn ffoi rhag cam-drin domestig yn gallu cael gafael ar gefnogaeth na fyddai wedi bod ar gael fel arall.

## Roedd **Gabriel** yn dioddef trais domestig

**Cafodd Gabriel ei atgyfeirio at Cymorth i Ddioddefwyr fel rhan o raglen llety ar gyfer dynion sy'n dioddef cam-drin domestig, gan linell gymorth Respect. Roedd yn ffoi rhag cam-drin domestig gan ei dad. Roedd wedi bod yn cael ei gam-drin ers pan oedd yn blentyn, ac roedd hynny wedi arwain at iselder, gorbryder a PTSD cymhleth.**

Ar ôl cynnal asesiad risg, crëwyd cynllun diogelu, gan gynnwys cais am lety i Nacro. Fe wnaethon ni leoli Gabriel mewn llety argyfwng mewn gwesty dros y penwythnos i ddechrau, cyn ei asesiad yn ystod yr wythnos ganlynol. Roedd Gabriel wedi cysylltu ag adran dai yr awdurdod lleol yn flaenorol, ond dywedwyd wrtho nad oedd yn flaenoriaeth.

Bu Shelter yn eirioli dros Gabriel er mwyn iddo gael lle mewn llety argyfwng. Fe wnaethon ni gysylltu â swyddog cynnal tenantiaeth i gael cyngor ynghylch pa eiddo rhent preifat a oedd yn bosib. Bu Shelter yn adolygu'r holl ohebiaeth gan yr awdurdod lleol, a chafodd Gabriel wybod beth oedd ei hawliau. Eglurwyd iddo y gallai apelio a chyflwyno cais newydd gan fod ei amgylchiadau wedi newid.

Aeth Gabriel i weld nifer o eiddo a daeth o hyd i fflat yr oedd yn gallu ei fforddio. Fe wnaethon ni ei gefnogi gyda chynllun blaendal rhent. Heb gefnogaeth y prosiect hwn, fyddai Gabriel ddim wedi cael gwybod ei fod yn gymwys i gael y cymorth hwn, a byddai wedi derbyn nad oedd gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i ofalu amdano, ar sail honiad yr awdurdod nad oedd yn aelod o grŵp blaenoriaeth.

## New Era Domestic Abuse Service

Roedd gwasanaeth New Era Domestic Abuse Service ar gyfer Swydd Stafford a Stoke-on-Trent (yn cael ei ddarparu gan Cymorth i Ddioddefwyr) yn falch o groesawu ein Llywydd, Ei Huchelder y Dywysoges Frenhinol, i weld y cymorth gwerthfawr sy'n cael ei ddarparu i oedolion a phlant lleol y mae cam-drin domestig yn effeithio arnyn nhw.

Trafodwyd effaith Covid-19 ar deuluoedd lleol, yn ogystal â'r gefnogaeth arbenigol i fenywod, dynion, unigolion LGBT+, cymunedau BAME a ffoaduriaid.

Yn ogystal â chwrdd â Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig New Era a gweithwyr cymorth eraill, bu'r Dywysoges Frenhinol yn sgwrsio â Rebecca Warrender, un o'r goroeswyr (gweler y dudalen nesaf), a wnaeth weddnewid ei bywyd ar ôl cael cefnogaeth gan New Era. Bu'n ddewr iawn drwy gytuno i fod yn wyneb New Era mewn ymgyrch ddiweddar i godi ymwybyddiaeth am y cymorth arbenigol sydd ar gael, gan annog dioddefwyr eraill i ddod ymlaen.

new era
ending relationship abuse



## Ymosododd partner **Rebecca** arni'n greulon yn ogystal â'i threisio

Dywedodd Rebecca (29): *"Wrth edrych yn ôl nawr, rwy'n sylweddoli bod fy nghyn-bartner wedi bod yn fy ngham-drin yn feddyliol ac yn fy rheoli am fisoedd cyn iddo ymosod arna i...*

*"Cymerodd fy nghar oddi arna i, a oedd yn golygu fy mod yn gorfod dibynnu mwy arno. Roedd yn fy ngyrru i i'r gwaith ac yn fy nanfon i lefydd eraill. Ar y pryd, roeddwn i'n meddwl mai dim ond bod yn garedig oedd o, ond nawr rwy'n sylweddoli ei fod yn ffordd o fy rheoli i.*


*"Roedd arno eisiau fy ngweld i bob dydd a gwybod beth oeddwn i'n ei wneud drwy'r amser. Roeddwn i'n meddwl mai dim ond bod yn neis oedd o, ac yn cymryd diddordeb ynof fi.*

*"Dysgu ymddiried eto ar ôl cael fy ngham-drin yw un o'r pethau anoddaf i mi. Ond nawr rwy'n teimlo bod gen i'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth i adnabod arwyddion perthynas wael, diolch i help fy ngweithiwr cymorth.*

*"Rwyf wedi bod mor ffodus i gael cefnogaeth teulu a ffrindiau – ac mae fy Nghynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig [New Era] wedi bod yn graig i mi. Pan aeth yr achos i'r llys, roedd hi wrth fy ochr i bob cam o'r ffordd. Alla i byth ad-dalu iddi am yr help a'r gefnogaeth rwyf wedi'u cael ganddi.*

*"Fyddwn i byth wedi gallu mynd i'r llys hebddi hi. Roedd cael rhoi tystiolaeth y tu ôl i sgrin wedi gwneud gwahaniaeth mawr hefyd. Rwy'n credu bod hynny'n bwysig iawn i bobl yn fy sefyllfa i, oherwydd gall fod yn brofiad dychrynllyd.*

*"Diolch byth, cefais y canlyniad roedd arna i ei eisiau. Fydd e ddim yn gallu brifo pobl agored i niwed rhagor,ac fe alla i symud ymlaen. Dydw i ddim wedi edrych yn ôl ers diwedd y treial."*



## Parhau i ddatblygu ein gallu i ymateb i ymosodiadau terfysgol a digwyddiadau mawr a gweithio'n agos gydag asiantaethau partner eraill i sicrhau ymateb strategol a di-dor

Roedd Cymorth i Ddioddefwyr yn un o bedwar sefydliad a ariannwyd gan Uned Dioddefwyr Terfysgaeth y Swyddfa Gartref i gryfhau ein hymateb cymorth uniongyrchol petai ymosodiad terfysgol yng Nghymru a Lloegr, neu ymosodiadau dramor lle'r oedd cenedlaetholwyr o Brydain yn gysylltiedig.

Bydd elfen Cymorth i Ddioddefwyr yn rhoi sylw i anghenion cymorth uniongyrchol dioddefwyr gan ddefnyddio asesiad anghenion ar sail trawma. Bydd y cymorth 24/7 hwn yn cael ei ddarparu gan weithwyr achos yn ein Canolfan Gyswllt Genedlaethol[11] a fydd yn un pwynt cyswllt am y pedair wythnos gyntaf ar ôl digwyddiad, cyn i'r dioddefwr/goroeswr gael ei drosglwyddo i'r gwasanaeth lleol i ddioddefwyr a gomisiynir gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Drwy gynnig cefnogaeth o'n Canolfan Gyswllt Genedlaethol, rydyn ni'n sicrhau bod dioddefwyr o bob cwr o Gymru a Lloegr yn cael yr un lefel o gefnogaeth uniongyrchol ble bynnag maen nhw a pha bynnag wasanaethau sydd ar gael yn lleol.

Rydyn ni wedi bod yn gweithio'n agos gyda sefydliadau eraill drwy gydol y flwyddyn i ymgorffori prosesau atgyfeirio di-dor fel nad yw dioddefwyr a goroeswyr yn gorfod ailadrodd eu stori bob tro mae angen cymorth arnyn nhw, ac er mwyn deall y cymorth mae modd i bob sefydliad ei ddarparu.

Tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol, sefydlwyd cymuned ymarfer yn sgil terfysgaeth a oedd yn cynnwys staff arbenigol Cymorth i Ddioddefwyr a oedd yn canolbwyntio ar ddatblygu ein prosesau mewnol ynghylch sut rydyn ni'n defnyddio ein hadnoddau pan fydd digwyddiad terfysgol. Mae'r gymuned ymarfer yn sgil terfysgaeth hefyd yn cynnwys aelodau allanol sydd â phrofiadau uniongyrchol o derfysgaeth. Maen nhw'n mynd ati'n frwd i gyfrannu barn a syniadau ynghylch sut gallwn ni fel sefydliad weithio tuag at ddarparu'r cymorth gorau posib i bobl y mae terfysgaeth wedi effeithio arnyn nhw.



11 Mae Canolfan Gyswllt Genedlaethol Cymorth i Ddioddefwyr yng Nghymru. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys Llinell Gymorth 24/7 Cymorth i Ddioddefwyr – gwasanaeth rhad ac am ddim i bobl yng Nghymru a Lloegr y mae troseddu wedi effeithio arnyn nhw. Yn 2020–21 derbyniodd y Llinell Gymorth **37,895** o alwadau.

# Ymestyn ystod a chyrhaeddiad ein cyrsiau atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a chyfiawnder adferol Cyrsiau Ymwybyddiaeth o Ddioddefwyr

## Cyfiawnder adferol

Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid a chomisiynwyr i ddatblygu ein dull gweithredu er mwyn darparu gwasanaethau cyfiawnder adferol sy'n canolbwyntio ar y dioddefwyr, sy'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ddioddefwyr a throseddwyr. Rydyn ni wedi dechrau'r achrediad gyda'r Cyngor Cyfiawnder Adferol ac wedi llwyddo i gael lle yng nghategori cyfiawnder adferol Fframwaith Dynamig y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer gwasanaethau prawf.



Rydyn ni wedi parhau i ddarparu ein gwasanaeth cyfiawnder adferol yn llwyddiannus yn Swydd Warwick a Gorllewin Mersia. Mae'r tîm yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys cynadleddau wyneb yn wyneb, cyfnewid llythyrau a chyfryngu yn ôl a blaen.

## Ymddygiad gwrthgymdeithasol

Yn gynnar yn 2021, fe wnaethon ni lwyddo i gadw ein gwasanaeth ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Islington. Mae ein staff a'n gwirfoddolwyr yn cefnogi preswylwyr i ddatrys anghydfodau a dod atyn nhw'u hunain ar ôl effaith ymddygiad gwrthgymdeithasol, drwy'r prosiect hirsefydlog hwn. Rydyn ni'n darparu cyfryngu hyfforddedig, naill ai wyneb yn wyneb, neu drwy gyfryngwr. Hefyd, rydyn ni'n cynnig cefnogaeth arbenigol i ddioddefwyr a thystion sy'n mynd i'r llys. Rydyn ni'n gweithio gydag amrywiaeth o grwpiau arbenigol sy'n gallu cefnogi cleientiaid yn unol â'u hanghenion a'u heriau unigol, gan eu helpu i ymdopi a gwella.

Roedd ein Hyrwyddwr yn erbyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yng Nghaerdydd wedi sylwi sut roedd y pandemig wedi cael effaith sylweddol. Roedd dioddefwyr yn mynegi teimladau a oedd yn newydd iddyn nhw, fel teimlo'n ynysig, gorbryder a cholli rheolaeth. Roedd defnyddwyr y gwasanaeth roedden ni'n eu cefnogi'n barod angen ein help am gyfnod hwy, gyda mwy o ymgysylltu a'r gweithiwr achos arbenigol yn darparu mwy o gefnogaeth emosiynol. Dyma rai o'r themâu cyffredin; roedd rhwydweithiau cefnogi presennol wedi diflannu, ac roedd dioddefwyr wedi mynd o gael llawer o gefnogaeth yn y gymuned i fod yn gaeth yn eu cartrefi heb gysur teulu a ffrindiau. Yn 2020–21, cyflwynodd y gwasanaeth 882 o wasanaethau cymorth i ddioddefwyr ledled Caerdydd, gan gynnwys cefnogaeth emosiynol, eiriolaeth, cefnogaeth yn y llys a chyfeirio.

## Cwrs Ymwybyddiaeth o Ddioddefwyr

Mae cwrs Ymwybyddiaeth o Ddioddefwyr Cymorth i Ddioddefwyr yn un dewis sydd ar gael i'r heddlu pan fyddan nhw'n penderfynu bod datrysiad y tu allan i'r llys yn ddatrysiad addas ar gyfer trosedd lefel isel gan droseddwr.

Ein cynllun ar gyfer eleni oedd cynyddu nifer y Cyrsiau Ymwybyddiaeth o Ddioddefwyr a oedd yn cael eu cyflwyno, ond gan fod y rhain yn digwydd mewn sesiynau grŵp wyneb yn wyneb, roedd y pandemig wedi effeithio arnyn nhw, ac ni chynhaliwyd unrhyw gyrsiau ym mis Ebrill a mis Mai 2020.

Ar ôl ail-ddylunio'r cwrs, roedden ni'n gallu ei ddarparu ar-lein ym mis Mehefin 2020, ac ar ddiwedd mis Mawrth, rydyn ni wedi derbyn dros 700 o atgyfeiriadau gan 14 o heddluoedd. Roedd hyn yn ostyngiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond o ystyried yr amgylchiadau, roedden ni'n hapus ein bod wedi gallu parhau gyda'r cyrsiau pwysig hyn, sy'n tynnu sylw at effaith troseddau ar ddioddefwyr.

**Roedd 76% o'r rhai a oedd wedi cwblhau'r cwrs wedi dweud y bydden nhw'n ymddwyn yn wahanol o ganlyniad i gwblhau'r cwrs.**




*"Roedd yn ddefnyddiol o ran fy helpu i feddwl am yr hyn roeddwn i wedi'i wneud a sut gallwn i osgoi canlyniad tebyg yn y dyfodol. Roeddwn i hefyd yn meddwl mwy am y dioddefwr na'r oeddwn wedi'i wneud yn flaenorol."*

**Cyfranogwr, Cwrs Ymwybyddiaeth o Ddioddefwyr**

*"Fe wnaeth fy helpu i ddeall bod fy ngweithredoedd wedi effeithio ar fwy o bobl yn hytrach na dim ond y rhai hynny oedd yno adeg y digwyddiad. Rwy'n gwybod sut byddwn i'n teimlo petawn i wedi dioddef o ganlyniad i fy ngweithredoedd."*

**Cyfranogwr, Cwrs Ymwybyddiaeth o Ddioddefwyr**

Rydyn ni wrthi'n gweithio gyda phedwar o heddluoedd newydd, er mwyn iddyn nhw allu atgyfeirio troseddwyr ar gyfer y Cwrs Ymwybyddiaeth o Ddioddefwyr yn 2021–22.

## Datblygu ein dull gweithredu ar gyfer gweithio mewn partneriaeth er mwyn i ni allu mynd ati'n effeithiol i gefnogi'r rheini y mae troseddu ac ofn troseddau yn effeithio fwyaf arnyn nhw

### Gwasanaeth Dioddefwyr a Thystion Llundain

Mae Gwasanaeth Dioddefwyr a Thystion Llundain (a gomisiynir gan Swyddfa Plismona a Throseddu'r Maer [MOPAC]) yn sicrhau bod pobl o Lundain y mae troseddu wedi effeithio arnyn nhw yn cael eu cefnogi wrth iddyn nhw ddod atyn nhw'u hunain.

Mae tîm Cymorth i Ddioddefwyr yn gweithio gyda nifer o sefydliadau partner i sicrhau bod gwasanaethau'n gallu bodloni anghenion cymunedau amrywiol Llundain. Mae'r rhain yn cynnwys Stay Safe East a Sistah Space.

**Stay Safe East**

Sefydliad sy'n cael ei arwain gan ddefnyddwyr yw Stay Safe East ac mae'n cael ei redeg gan bobl anabl. Mae'n darparu gwasanaethau eirioli a chefnogi cyfannol i bobl anabl ledled Llundain sydd wedi dioddef/goroesi cam-drin domestig, troseddau casineb neu aflonyddu. Mae Stay Safe East yn bartner gwerthfawr yng Ngwasanaeth Dioddefwyr a Thystion Llundain (LVWS). Drwy weithio gyda nhw, gallwn sicrhau bod pob anabl a phobl fyddar yn cael cefnogaeth briodol, yn deall eu hawliau ac yn gallu cael cyfiawnder. O ganlyniad, rydyn ni wedi gallu cefnogi Stay Safe East drwy eu helpu i wneud cais llwyddiannus am gyllid gan y Swyddfa Gartref i ymestyn eu dylanwad ar draws y wlad.

Drwy weithio mewn partneriaeth, fe wnaethon ni annog mwy o ddioddefwyr anabl i ddod ymlaen a sicrhau bod gan Stay Safe East well adnoddau i'w cefnogi.

**Sistah Space**

Sefydlwyd Sistah Space yn Hackney yn 2015 i bontio'r bwlch mewn gwasanaethau cam-drin domestig ar gyfer menywod a merched o dras Affricanaidd. Ei nod yw annog goroeswyr o dras Affricanaidd i roi gwybod am gam-drin drwy ddarparu lleoliad diwylliannol diogel i ddioddefwyr ddatgelu'r cam-drin mewn amgylchedd cyfrinachol.

Mae Cymorth i Ddioddefwyr wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Sistah Space ers 2019, a dros y flwyddyn ddiwethaf, fel rhan o LVWS. Mae wedi bod yn flwyddyn heriol i Sistah Space, gyda'r pandemig a mudiad Mae Bywydau Du o Bwys yn cael effaith arwyddocaol ar eu grŵp cleient.

Rydyn ni wedi ymestyn ein partneriaeth gyda Sistah Space a Stay Safe East am flwyddyn arall, ac edrychwn ymlaen at ddatblygu gwasanaeth fwyfwy hygyrch i bawb yn Llundain.

SOCIAL VALUE

Roedden ni'n falch o allu cefnogi Sistah Space gyda chais am gyllid llawr gwlad a darparu hyfforddiant Safelives i dri o'u Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig.

## Wedi ymrwymo i bartneriaeth

Mae pobl y mae troseddau wedi effeithio arnyn nhw'n gallu sicrhau gwell canlyniadau oherwydd bod gennym berthnasoedd da â chyrff cyhoeddus ac elusennau eraill.

Rydyn ni'n cydnabod gwerth gweithio mewn partneriaeth ac yn gweithio'n barhaus i adeiladu perthnasoedd cryf ac effeithiol.

## Ymosododd preswylydd arall ar Amy* yn rhywiol

**Cafodd Amy ei rhoi mewn gofal preswyl ar ôl dioddef cam-drin domestig gan ei gŵr. Tra roedd hi yn y cartref gofal, ymosododd preswylydd arall arni'n rhywiol. Derbyniodd Stay Safe East atgyfeiriad gan ei chwaer, yn dweud nad oedd gan y cleient ffôn, a bod staff yn honni eu bod wedi delio â'r digwyddiad.**

Cysylltodd yr Eiriolwr Annibynnol ar Anabledd a Thrais Domestig â'r cleient dros rif llinell dir y cartref gofal, a oedd yn arwain at ddiffyg preifatrwydd i'r cleient gan y byddai'r staff yn gofyn pam fod yr eiriolwr yn ffonio. Roedd Stay Safe East yn gallu prynu ffôn iddi er mwyn gwella ei hannibyniaeth, a galluogodd hynny iddi gael cyswllt â'r eiriolwr ar ei thelerau ei hun.

Byddai'r cleient yn crïo tra byddai ar y ffôn gyda'r eiriolwr, gan ddweud *"mae e'n dal i fod yma"*. Bu'r eiriolwr yn dadlau ar ran y cleient iddi gael ei symud i lety arall. I ddechrau, roedd y gweithiwr cymdeithasol yn wrthwynebol, ond diolch i waith caled yr eiriolwr, cafodd ei symud i leoliad arall, ymhell o'r cam-drin. Roedd y cleient yn gallu dod ati'i hun yn dilyn y ddau fath o gam-drin roedd wedi'u dioddef.



* Mae'r enw wedi'i newid i warchod yr unigolyn.

## Partner strategol yn Nyfnaint a Chernyw

SOCIAL VALUE

Yn ein rôl newydd fel Partner Strategol i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfnaint a Chernyw, rydyn ni'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau dioddefwyr eraill ledled y rhanbarth. Yn ein proses arbenigol o reoli caffael a'r gadwyn gyflenwi, byddwn yn gwerthuso gwasanaethau gan ddefnyddio metrigau gwerth cymdeithasol, ac yn datblygu partneriaethau cryf ac effeithiol gyda darparwyr. Rydyn ni'n teimlo'n gyffrous iawn ynghylch y cyfle i ddarparu gwerth cymdeithasol y tu hwnt i'n sefydliad ei hunain.

PCC
Office of the Police and Crime Commissioner
Devon and Cornwall

# Byddwn yn datblygu gwasanaethau newydd a fydd yn diwallu anghenion newydd sy'n dod i'r amlwg drwy wneud y canlynol:

## Datblygu ein strategaeth ddigidol a gwella'r ffordd y caiff ein gwasanaethau digidol eu cyflenwi



### Strategaeth ddigidol

Eleni fe wnaethon ni lansio ein strategaeth ddigidol newydd (2020–23). Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth ddigidol, datblygu sgiliau digidol ein gweithlu a darparu gwasanaethau digidol effeithiol a diogel i ddefnyddwyr gwasanaeth.

### My Support Space

Yn ystod ei flwyddyn gyntaf, roedd dros **5,200** o bobl wedi cofrestru ar gyfer My Support Space[11], sef llwyfan rhyngweithiol ar-lein lle mae defnyddwyr yn cwblhau canllawiau hunangymorth.

Mae'r llwyfan yn cynnwys dros **50** o ganllawiau rhyngweithiol i bobl y mae troseddu wedi effeithio arnyn nhw, yn ogystal â ffrindiau a theulu sy'n dymuno cefnogi rhywun sydd wedi profi trosedd.

Mae'r canllawiau wedi bod yn boblogaidd iawn, yn arbennig y rhai sy'n rhoi sylw i gwsg, lles, trawma, emosiynau anodd ac adnoddau iechyd meddwl.




*"Rwyf wedi dysgu rhai technegau ymdopi nad oeddwn erioed wedi meddwl amdanyn nhw o'r blaen, gan fy mod fel arfer yn ceisio rhoi'r gorau i feddwl yn negyddol. Mae hyn wedi helpu, diolch."*

**Canllaw ar strategaethau ymdopi**

*"Pan fyddaf i'n cyfeirio cleientiaid, maen nhw wir yn mwynhau, ac yn teimlo ei fod wir wedi eu helpu, yn enwedig gyda'r canllaw ar gwsg – hefyd, o ganlyniad i Covid-19, roedden nhw'n teimlo ei fod wedi'u helpu gan eu bod yn teimlo'n ynysig."*

**Gweithiwr cymorth, Llundain**

Mae arolygon a gynhaliwyd gan aelodau'r cyhoedd yn awgrymu bod My Support Space yn arbennig o berthnasol i bobl 18–34 oed, pobl o gefndir BAME, pobl sy'n ystyried eu hunain yn LGBT+ neu'r bobl hynny sydd ag anabledd neu ddewis o ran cyfathrebu, sy'n gwneud rhyngweithio â gweithiwr cymorth yn anoddach na chael mynediad at lwyfan ar-lein.





11 Ym mis Mai 2020 darparodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder gyllid i gyflwyno My Support Space ar draws Cymru a Lloegr.

## Gwefan Cymorth i Ddioddefwyr

Ym mis Mawrth 2020 fe wnaethon ni adnewyddu ein gwefan er mwyn iddi edrych yn fwy cyfredol, ac er mwyn i ni gael mwy o hyblygrwydd i gyfleu gwahanol elfennau ein gwaith, a'r cymorth sydd ar gael i bobl y mae troseddu wedi effeithio arnyn nhw.


Mae dros **900,000** o ddefnyddwyr wedi mynd ar ein gwefan i gael gwybodaeth a chymorth, sy'n **gynnydd o 12%** ar y flwyddyn flaenorol.





## The Support Room

Fe wnaethon ni ail-lansio The Support Room, sef fforwm cymheiriaid i bobl sy'n galaru yn dilyn llofruddiaeth neu ddynladdiad. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y defnyddwyr cofrestredig i **141**, gyda **37** o bobl yn cyfrannu'n rheolaidd.

Mae llyfrgell adnoddau wedi'i datblygu yn adran hyb gwybodaeth y wefan. Mae hyn yn cynnwys gweminarau a fideos ar bynciau fel trawma, cwsg a lles.



## Codi ymwybyddiaeth o'n gwasanaethau i alluogi rhagor o bobl i gael cymorth ac i atgyfeirio eu hunain

Gyda chyfyngiadau a chyfnodau clo ar draws y wlad, fe wnaethon ni weithio ochr yn ochr â sefydliadau'r llywodraeth a'r sector i fynegi'n glir bod gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr yn dal i fod ar agor ac ar gael i unrhyw un yr oedd angen cymorth arno. Er enghraifft, sicrhau bod gwasanaethau Cymorth i Ddioddefwyr yn cael eu hyrwyddo ar wefannau llywodraeth a manteisio ar bob cyfle i dynnu sylw at y dewisiadau cefnogi a oedd ar gael i bobl.

Fe wnaethon ni lwyddo i gael **6,576** o ddarnau o gyfryngau ar-lein, mewn print ac wedi'u darlledu a oedd yn sôn am Cymorth i Ddioddefwyr (**cynnydd o 35%** o gymharu â'r flwyddyn flaenorol), gan ganiatáu i ni roi gwybod am ein gwasanaethau i ragor o bobl.

Yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, fe wnaethon ni dynnu sylw at **gynnydd o 62%** yn nifer y bobl a oedd yn chwilio am gefnogaeth ar ôl dioddef troseddau casineb wrth i'r cyfnod clo cyntaf gael ei lacio dros yr haf. Fe wnaethon ni egluro bod troseddau casineb yn drosedd ddifrifol a bod help a chymorth ar gael i unrhyw un a oedd angen hynny.

Fe wnaethon ni weithio gyda'r cyfryngau cenedlaethol i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau cam-drin domestig yn ystod y cyfnod clo, gan gynnwys darn ar y cynnydd mewn achosion o reolaeth drwy orfodaeth roedden ni wedi'i weld yn ystod y pandemig.

Fe wnaethon ni ganolbwyntio ar y cynnydd mewn achosion o dwyll a welwyd yn ystod y cyfnodau clo a sut roedd hyn yn effeithio ar ddioddefwyr, yn arbennig sut roedd twyll rhamant wedi dod yn fwy hollbresennol.



## Roedd **Mike** wedi dioddef twyll rhamant

**Roedd twyllwr, a oedd yn honni ei bod yn fenyw 36 oed o America o'r enw Patricia, wedi sgamio dros £20,000 gan Mike. Ar ôl anfon negeseuon yn ôl a blaen ar y cyfryngau cymdeithasol, dros y ffôn a dros e-bost am sawl mis, cytunwyd y byddai Patricia yn hedfan i'r DU i briodi Mike. Dywedodd bod angen help arni i dalu am gyfarpar diogelu personol ac i dalu am ei biliau.**

Disgrifiodd Mike pa mor unig yr oedd yn ystod y cyfnod clo a dywedodd fod Patricia wedi cymryd mantais ar hynny.

*"Fe wnes i anfon miloedd iddi brynu masgiau a menig. Dywedodd bod arni angen prynu llawer o fwyd a gofalu am ei mam a'i mab 11 oed. Roeddwn i'n caru'r fenyw yma. Roeddwn i'n meddwl fy mod am ei phriodi, ac roeddwn i am ei hamddiffyn."*

Rhoddodd Mike wybod i'r banc ei fod wedi cael ei sgamio ond roedd yn rhy hwyr i stopio'r sgamwyr. Roedd yn teimlo fel lladd ei hun. Gofynnodd am help gan Cymorth i Ddioddefwyr:

*"Mae'r gwaith rydych chi'n ei wneud yn wych. Heb eich cefnogaeth chi, fyddwn i ddim yma heddiw, ac rwy'n golygu hynny. Roedd dim ond cael rhywun i wrando a gallu siarad â rhywun am sut rydych chi'n teimlo yn golygu llawer. Diolch o galon am wrando."*





# Ehangu ystod ein gwasanaethau a thargedu ein hadnoddau i helpu'r bobl y mae angen gwasanaeth arnyn nhw fwyaf

## Gwasanaeth yn dilyn Lladdiadau i Blant a Phobl Ifanc Llundain

Lansiwyd Gwasanaeth yn dilyn Lladdiadau i Blant a Phobl Ifanc Llundain gan Cymorth i Ddioddefwyr ym mis Mawrth 2020. Cafodd y gwasanaeth ei gomisiynu gan Uned Lleihau Troseddu MOPAC, a dechreuodd gefnogi plant a phobl ifanc (4–21 oed) a oedd yn galaru yn sgil lladdiadau neu wedi bod yn dyst i laddiadau.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu i'r teulu cyfan o ran risgiau i ddiogelwch, heriau gydag ymchwiliadau troseddol, trefnu angladdau a rheoli perthnasoedd y teulu ehangach. Mae pob gweithiwr achos yn arbenigo mewn maes penodol, gan gynnwys trais ieuenctid difrifol, cam-drin domestig, cymorth iechyd meddwl pobl ifanc neu weithio gyda phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn galluogi'r tîm cyfan i ddarparu pecyn cymorth cynhwysfawr. Mae'r Gwasanaeth yn dilyn Lladdiadau yn gweithio gyda seicolegydd mewnol Cymorth i Ddioddefwyr ac yn cysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol eraill hefyd. Mae'r tîm yn amrywiol, yn helpu i ddeall gwahaniaethau diwylliannol a chrefyddol yn dilyn marwolaeth, gan gynnwys, er enghraifft, deall gwahanol draddodiadau o ran angladdau.

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi person ifanc drwy ei dywys drwy'r broses cyfiawnder troseddol ac yn helpu'r rhiant/gofalwr drwy ddarparu adnoddau a thechnegau i gefnogi'r plentyn. Os yw pobl ifanc yn amharod i ymgysylltu ar y dechrau, mae'r gwasanaeth yn gweithio mewn dull ar sail trawma er mwyn rhoi ychydig o amser i'r teulu, ond yn rhoi rhagor o gyfleoedd iddyn nhw ymgysylltu drwy gysylltu â nhw eto ar adegau y mae pawb wedi cytuno arnyn nhw.

Mae cymorth yn cael ei ddarparu mewn 12 sesiwn wythnosol ac yn cael ei gynllunio o amgylch anghenion y person ifanc.

## Gwelodd **Daniel*** aelod o'i deulu yn cael ei ladd yn ei dŷ

**Gwelodd Daniel (15 oed) aelod o'i deulu yn cael ei ladd yn ei dŷ. Roedd arno ofn, ac roedd yn flin ac wedi cael ysgytwad.**

Cysylltodd y gwasanaeth â mam Daniel i ddechrau, i esbonio beth oedd y gwasanaeth, sut byddai cyfrinachedd yn cael ei gynnal ac er mwyn rhoi gwybod i'r ddau ohonyn nhw beth gallen nhw ei ddisgwyl. Oherwydd cyfyngiadau Covid-19, roedd y cymorth yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng galwadau ffôn a chynadleddau fideo i ddechrau, ac roedd ei fam yn bresennol hefyd. Newidiodd hyn yn ddiweddarach i gyfarfodydd wyneb yn wyneb yn yr ysgol.

I ddechrau, roedd Daniel yn amharod i rannu ei deimladau. Ond, ar ôl ychydig o sesiynau 'dod i fy adnabod' a 'gemau' gyda'i weithwyr achos, mynegodd Daniel ei bryderon ynghylch teimlo nad oedd yn ddiogel yn ei gartref newydd, gan fod ei deulu mewn llety dros dro ar ôl y lladdiad. Roedd y gweithiwr achos cefnogol a gweithiwr achos Gwasanaeth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau Cymorth i Ddioddefwyr yn gweithio mewn ffordd gyfannol o ran cefnogi'r teulu gyda'r llety presennol. Fe wnaethon nhw roi gwybod i'r darparwr tai a'r gwasanaethau plant sut roedd y sefyllfa yn effeithio ar Daniel a'i deulu.

Gyda chaniatâd Daniel a'i fam, bu'r gweithiwr achos yn eirioli â'r ysgol ynghylch ei anghenion. Roedd hyn yn golygu y gallai'r ysgol sicrhau cymorth i Daniel, yn ogystal â rhannu gwybodaeth i gefnogi Daniel a'i deulu.

Trefnwyd seibiant haeddiannol iawn dros benwythnos i'r teulu cyfan, gan gynnwys Daniel, ei frawd, ei fam a'i nain.

Dywedodd Daniel a'i fam fod y gwasanaeth wedi helpu Daniel i ddangos a deall ei deimladau, ac ar ôl cael cefnogaeth Cymorth i Ddioddefwyr, roedd mam Daniel yn disgrifio ei mab fel bachgen 'hapus a bodlon'.






* Mae'r enw wedi'i newid i warchod yr unigolyn.

## Byddwn wedi cyflawni newid drwy bledio achos pobl i gael gwell hawliau a theimlo eu bod yn cael eu parchu gan y system cyfiawnder troseddol drwy wneud y canlynol:

### Datblygu sgiliau eirioli ein timau i wella eiriolaeth ar gyfer dioddefwyr.

Y llynedd, fe wnaethon ni lansio ein hachrediad Eiriolwyr Annibynnol i Ddioddefwyr (IVA) a gafodd ei ddatblygu a'i achredu gan y Rhwydwaith Coleg Agored. Eleni, rydyn ni wedi buddsoddi i ymestyn y rhaglen 9–12 mis hon, er mwyn i lawer mwy o'n staff allu dechrau ar y cwrs hwn yn ystod y misoedd nesaf.





Daeth Cod y Dioddefwyr i rym ar 1 Ebrill 2021. Mae'r ddogfen bwysig hon yn amlinellu'r cymorth y mae gan ddioddefwyr a thystion yr hawl i'w gael gan yr heddlu, y llysoedd ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill. Rydyn ni wedi tynnu sylw at y cod newydd hwn drwy sianeli mewnol ac allanol, ac wedi lansio llyfr gwaith dysgu newydd i'n staff a'n gwirfoddolwyr, er mwyn iddyn nhw allu sicrhau bod ein cleientiaid yn ymwybodol o'u hawliau o dan y cod a'u bod yn gallu eirioli drostyn nhw pan nad ydyn nhw'n cael yr hawliau hyn, neu pan fydd eu hawliau'n cael eu torri.

### Eirioli dros atebion polisi a fydd yn gwella profiadau dioddefwyr a thystion.

Fe wnaethon ni gyfrannu at nifer o gyfarfodydd a grwpiau rhanddeiliaid uchel eu proffil, gan gynnwys Uwchgynhadledd Niwed Cudd yn Downing Street, Covid-19 Silver Command, sy'n canolbwyntio ar effaith y pandemig ar ddioddefwyr, a Grŵp Cynghori'r Comisiynydd Dioddefwyr. Cawsom gyfarfodydd â'r Comisiynydd Cam-drin Domestig a'r Gweinidog dros Ddioddefwyr ynghylch effaith y pandemig a pholisi dioddefwyr o ran y Ddeddf Dioddefwyr a chael cyfiawnder.

Fe wnaethon ni gyflwyno tystiolaeth i amrywiaeth o ymgynghoriadau, gan gynnwys ar y Cod newydd i Ddioddefwyr, diwygio cynllun digolledu am anafiadau troseddol, canllawiau newydd i ddioddefwyr sy'n cael therapi cyn treial, ac adolygiad Comisiwn y Gyfraith o ddeddfwriaeth troseddau casineb. Fe wnaethon ni hefyd weithio ochr yn ochr â sefydliadau eraill i hyrwyddo materion dioddefwyr ar y cyd; er enghraifft, drwy alw am i oroeswyr cam-drin domestig gael gwell mynediad at gymorth cyfreithiol.

Mae llawer o'r gwaith eirioli rydyn ni wedi'i wneud yn y flwyddyn ddiwethaf wedi canolbwyntio ar dynnu sylw at effaith y pandemig ar ddioddefwyr troseddau a gwasanaethau cymorth, ac wedi cyfrannu at gynlluniau gweithredu'r llywodraeth i roi sylw i feysydd sy'n peri pryder. Rydyn ni wedi codi pryderon yn benodol am y cynnydd yn nifer y dioddefwyr a'r goroeswyr sy'n cael gafael ar ein gwasanaethau oherwydd troseddau niwed uchel, problemau o ran cael gafael ar wasanaethau iechyd meddwl, heriau o ran darparu gwasanaethau diogel i'r rheini sy'n agos at y cyflawnwyr ac effaith oedi yn y llysoedd.



## Cafodd oedi yn y llys effaith enfawr ar iechyd meddwl Gemma

**I bobl fel Gemma, roedd oedi yn y llys wedi cael effaith negyddol hefyd.**

Ym mis Hydref 2019, fe wnaeth ei chynbartner ymosod arni a'i churo. Ar ôl mynd i'r llys ychydig fisoedd yn ddiweddarach, cafodd yr achos ei ohirio oherwydd nad oedd digon o amser. Roedd oedi yn y llys ar gynnydd hyd yn oed cyn y pandemig, ond gwaethygodd Covid-19 y sefyllfa. Bu bywyd Gemma ar stop wrth i dreial y cyflawnwr gael ei ohirio chwe gwaith dros gyfnod o 17 mis, a hynny weithiau ar fyr-rybudd. Cafodd effaith enfawr ar ei iechyd meddwl, a bu'n meddwl am ladd ei hun.

*"Roedd gen i ddau ddewis – naill ai rhoi diwedd arnaf fy hun a rhoi diwedd ar y boen a'r trallod o beidio gallu cysgu – neu fynd ag ef i'r llys cyn iddo gael y gorau arnaf i."*





## Paratoi ymchwil gydag argymhellion ymarferol i wella gwasanaethau a dylanwadu ar ddatblygu polisïau


Fe wnaethon ni baratoi adroddiad a oedd yn canolbwyntio ar effaith Covid-19 ar ddioddefwyr troseddau. Roedd yr ymchwil yn tynnu sylw at yr effaith y mae'r cyfyngiadau wedi'i chael ar ddioddefwyr o ran gallu cael mynediad at wasanaethau Cymorth i Ddioddefwyr, yn ogystal â nodi problemau a oedd yn effeithio ar ddioddefwyr, fel oedi yn y llysoedd a heriau o ran cyflenwi gwasanaethau.

Roedden ni'n gallu cyhoeddi canfyddiadau interim prosiect ymchwil ar y cyd â'r Sefydliad Ymchwil Polisi Troseddau a Chyfiawnder (ICPR) yn Birkbeck, Prifysgol Llundain, a'r Ganolfan Arloesi Cyfiawnder, gyda chefnogaeth Sefydliad Bell. Mae'r canfyddiadau interim hyn yn canolbwyntio ar rwystrau iaith dioddefwyr a thystion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddyn nhw, yn y system cyfiawnder troseddol.

Rydyn ni wedi cynnal ymchwil dros amrywiaeth o feysydd eraill, fel troseddau casineb a phlant a phobl ifanc y mae cam-drin domestig wedi effeithio arnyn nhw, ac rydyn ni'n bwriadu cyhoeddi canfyddiadau'r ymchwil yn gynnar yn ystod y flwyddyn ariannol 2021–22.






YN ÔL I'R CYNNWYS

# Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

2021–22 yw ail flwyddyn ein strategaeth tair blynedd. Er mwyn helpu i gyflawni'r strategaeth hon, rydyn ni wedi pennu'r nodau a'r amcanion canlynol.

| Nod strategol | Amcanion 2021-22 | Sut byddwn yn eu cyflawni |
|---|---|---|
| Byddwn yn grymuso rhagor o bobl gyda chymorth arbenigol ac eiriolaeth i deimlo'n fwy diogel a symud ymlaen y tu hwnt i effaith y niwed maen nhw wedi ei brofi. | Meithrin cydnerthedd a chyfrannu at bobl yn fwy diogel ac yn teimlo'n fwy diogel. | Gwella ymarfer, adnoddau a thechnegau sy'n canolbwyntio ar gyflenwi gwasanaeth i blant a phobl ifanc, gan gynnwys datblygu adnoddau er mwyn deall niwed ar-lein yn well.<br>Gwella ein cyrhaeddiad a'n cymorth ar gyfer dioddefwyr cam-drin rhywiol heb fod yn ddiweddar drwy ddatblygu ein fframwaith cyflenwi gwasanaethau.<br>Datblygu ein gwaith gyda chyflawnwyr a'n gwaith cyd-gynhyrchu ym maes cam-drin domestig.<br>Cydlynu a datblygu ein hadnoddau a'n technegau ymarfer arbenigol ym maes twyll. |
| Byddwn yn datblygu gwasanaethau newydd a fydd yn diwallu anghenion newydd sy'n dod i'r amlwg. | Cyrraedd rhagor o bobl nad ydyn nhw'n rhoi gwybod am drosedd neu nad ydyn nhw'n cysylltu â'n gwasanaethau. | Cynyddu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ac effaith gwerth cymdeithasol yn fewnol ac yn allanol.<br>Cyflawni Strategaeth Ddigidol Cymorth i Ddioddefwyr a datblygu ein gwefan ddigidol hunan-gymorth, 'My Support Space' ymhellach.<br>Gwella gallu dioddefwyr i gael cymorth drwy Ganolfan Gyswllt Genedlaethol Cymorth i Ddioddefwyr. |
| | Darparu gwasanaethau effeithiol yn y ffordd y mae pobl yn dymuno eu derbyn. | Addasu ein modelau gwasanaeth yng nghyd-destun yr hyn rydyn ni wedi'i ddysgu yn sgil Covid-19, newidiadau o ran anghenion a disgwyliadau cleientiaid, a pholisi comisiynwyr. |
| Byddwn yn cyflawni newid drwy bledio achos pobl i gael gwell hawliau a theimlo eu bod yn cael eu parchu gan y system cyfiawnder troseddol. | Grymuso pobl i gyflawni'r hawliau y mae ganyddyn nhw'r hawl iddyn nhw ac i siarad am eu profiadau i wella'r system cyfiawnder troseddol. | Datblygu ein dull o gyd-gynhyrchu a rhoi mwy o lais i'r rheini sydd â phrofiadau uniongyrchol; parhau i ddatblygu ein dull cymorth gan gymheiriaid.<br>Hwyluso'r broses o gyflwyno hyfforddiant Eiriolwyr Annibynnol i Ddioddefwyr Cymorth i Ddioddefwyr. |



03:26
VS
VICTIM
SUPPORT
Dechrau Sgwrs

# Adroddiad strategol

## Strwythur, llywodraethu a rheoli

Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn gwmni cyfyngedig trwy warant, a ymgorfforwyd ar 28 Awst 1987, ac a gofrestrwyd fel elusen gyda'r Comisiwn Elusennau ar 17 Tachwedd 1987. Mae'r cwmni'n cael ei lywodraethu yn ôl ei erthyglau cymdeithasu a gafodd eu diwygio ac y cytunwyd arnyn nhw mewn penderfyniad arbennig ar 28 Chwefror 2020.

## Strwythurau llywodraethu



# Sefydliad

## Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol yn y pen draw am bennu cyfeiriad strategol, rheoli a diogelu asedau'r elusen. Ond mae wedi dirprwyo'r rhan fwyaf o'r penderfyniadau gweithredol i'r Prif Swyddog Gweithredol ac i aelodau'r Uwch Dîm Rheoli.

Mae'r Bwrdd yn cymeradwyo Cynllun Dirprwyo sy'n nodi cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Uwch Dîm Rheoli. Mae'r Bwrdd yn monitro ac yn rheoli'r holl waith dirprwyedig drwy broses adrodd yn rheolaidd.

Mae rhagor o wybodaeth am yr ymddiriedolwyr ar gael ar dudalen 66 neu ar **wefan Cymorth i Ddioddefwyr**.

## Yr Uwch Dîm Rheoli

Mae'r Prif Swyddog Gweithredol ac aelodau allweddol eraill o staff yn ffurfio'r Uwch Dîm Rheoli. Mae'r tîm yn atebol yn uniongyrchol i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ac yn gyfrifol am holl agweddau dydd i ddydd o redeg yr elusen.

**Diana Fawcett**
Prif Swyddog Gweithredol

- **Johanna Parks** – Cyfarwyddwr Gwasanaethau – Gogledd a Chanolbarth Lloegr
- **Zoe Byrne** – Cyfarwyddwr Gwasanaethau – De Lloegr a Chymru
- **Kultar Nayyar** – Cyfarwyddwr Gwasanaethau – Llundain a Lladdiadau
- **Simon Ketteridge** – Cyfarwyddwr Datblygu Busnes, Dealltwriaeth a Materion Allanol
- **Martyn Herward** – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Busnes
- **Pauline Mouskis** – Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro

**Gwasanaethau lleol**

**Gwasanaethau cymorth cenedlaethol**

Mae rhagor o wybodaeth am yr Uwch Dîm Rheoli ar gael ar **wefan Cymorth i Ddioddefwyr**.

## Is-gwmnïau

Mae gan Cymorth i Ddioddefwyr ddau is-gwmni sydd yn ei berchnogaeth lwyr: Victims Support Limited (02609147) a VS Trading (Cornwall) Limited (04631310). Mae Victims Support Limited yn darparu cyrsiau ymwybyddiaeth o ddioddefwyr. Mae VS Trading (Cornwall) Limited yn codi arian i Cymorth i Ddioddefwyr drwy ddarparu gwasanaethau arlwyo yn Llys Ynadon Truro. Ni wnaeth VS Trading (Cornwall) Limited fasnachu yn ystod 2020–21 a bydd yn cael ei ddirwyn i ben yn 2021–22 gan nad oes ei angen mwyach. Mae rhagor o wybodaeth am y ddau gwmni ar gael yn nodyn 10.1 y datganiadau ariannol.

## Taliadau cydnabyddiaeth personél rheoli allweddol

Y cyfarwyddwyr, sef ymddiriedolwyr yr elusen, a'r Uwch Dîm Rheoli yw personél rheoli allweddol yr elusen, sy'n gyfrifol am reoli'r sefydliad o ddydd i ddydd. Cynhaliwyd adolygiad ffurfiol o daliadau cydnabyddiaeth yr Uwch Dîm Rheoli yn 2020–21 ar gais yr ymddiriedolwyr. Y diben oedd sicrhau bod lefelau tâl yn parhau i fod yn gystadleuol er mwyn cynnal sefydlogrwydd ac arweinyddiaeth o safon yn ystod cyfnod sydd wedi bod, ac a fydd yn parhau i fod, yn heriol. Roedd yr adolygiad yn cynnwys dadansoddiad llawn gan gymharu â rolau cyfarwyddwyr tebyg ar draws y sector mewn elusennau tebyg o ran maint.

## Budd y cyhoedd

Cyfeiriodd yr ymddiriedolwyr at ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd y cyhoedd wrth adolygu nodau ac amcanion yr elusen ac wrth gynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol. Yn benodol, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Elusennau 2011, bydd yr ymddiriedolwyr yn ystyried sut bydd gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio yn cyfrannu at y nodau a'r amcanion maen nhw wedi'u pennu.

Ystyriodd yr ymddiriedolwyr yr wybodaeth yng nghanllawiau cyffredinol y Comisiwn Elusennau ar fudd y cyhoedd yn ofalus wrth adolygu nodau ac amcanion yr elusen, wrth gynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol ac wrth bennu'r polisïau priodol ar gyfer y flwyddyn.

## Llywodraethu da

Rydyn ni'n cydymffurfio â Chod Llywodraethu'r Elusen ym mhob peth sy'n berthnasol ac yn hanfodol ac mae gennym raglen i sicrhau ein bod yn parhau i wella a chadw at y cod.

## Penodi ymddiriedolwyr

Mae'r erthyglau cymdeithasu yn pennu nifer yr ymddiriedolwyr, a rhaid i'r nifer fod yn fwy na phump (oni bai y pennir fel arall gan benderfyniad cyffredin) a dim mwy na 12. Mae 12 o ymddiriedolwyr ar y Bwrdd ar hyn o bryd. Mae'r ymddiriedolwyr yn ymddiriedolwyr yr elusen ac yn gyfarwyddwyr cwmni cyfyngedig trwy warant, sy'n golygu bod cyfraith cwmnïau ac elusennau yn rheoleiddio eu gweithgareddau.

Pwyllgor y Bobl sy'n cadw golwg ar bwy sy'n cael eu penodi ar y Bwrdd. Penodir ymddiriedolwyr am gyfnod o hyd at dair blynedd i ddechrau. Byddai modd eu hailbenodi am gyfnod o dair blynedd arall, ac ar ôl hynny, rhaid iddyn nhw roi'r gorau i fod yn ymddiriedolwyr, oni bai fod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol. Os felly, gallai'r Bwrdd ganiatáu i ymddiriedolwr wasanaethu am dymor arall o hyd at dair blynedd.

## Polisi moesegol

Mae gan yr elusen bolisi moesegol sy'n nodi fframwaith ar gyfer cyflawni dibenion elusennol mewn ffordd foesegol. Nod y polisi yw cefnogi Cymorth i Ddioddefwyr a'i Fwrdd Ymddiriedolwyr i gydnabod a datrys gwrthdaro a materion moesegol a gwneud Cymorth i Ddioddefwyr yn lle mwy diogel.

## Ffyrdd o fynegi pryderon

Mae gan Cymorth i Ddioddefwyr weithdrefn a pholisi chwythu'r chwiban ar waith i alluogi staff a gwirfoddolwyr i adrodd am unrhyw fater sy'n peri pryder, yn ogystal â ffyrdd eraill fel mynegi anghydfod, ac ati. Hefyd, eleni, fe wnaethon ni gyflwyno llwyfan adrodd trydydd parti sy'n caniatáu i staff a gwirfoddolwyr adrodd am faterion yn ddienw. Mae hyn yn sicrhau nad oes unrhyw beth yn rhwystro unrhyw staff na gwirfoddolwyr rhag mynegi pryderon. Bydd rheolwyr yn ymchwilio'n fanwl i bob cwyn, anghydfod a mater chwythu'r chwiban, p'un ai ydyn nhw wedi'u derbyn yn fewnol neu'n allanol, a phan fo'n briodol, bydd camau rheoli neu gamau disgyblu eraill yn cael eu cymryd.

Rydyn ni'n cynnal arolygon yn rheolaidd hefyd i weld pa mor hyderus yw ein staff a'n gwirfoddolwyr i adrodd am unrhyw bryderon. Caiff canlyniadau'r arolygon hyn eu cyflwyno i'n Fforwm Ymgynghori â Staff, ble bydd aelodau'r fforwm yn eu trafod. Eleni, ac o ganlyniad uniongyrchol i'r trafodaethau hyn, cyflwynodd ein Fforwm Ymgynghori â Staff Gynllun Cefnogi Cydweithwyr. Mae'r cynllun, y mae

gweithwyr yn cael ei recriwtio ar ei gyfer ac sy'n cael ei redeg a'i reoli gan weithwyr, yn rhoi rhagor o gefnogaeth i rymuso unigolion i fynegi eu pryderon drwy'r llwybrau priodol.

## Diogelu

**Rydyn ni'n credu yn y canlynol:**

- Ni ddylai unrhyw un fyth brofi cam-drin na niwed o unrhyw fath.
- Mae gennym gyfrifoldeb i hyrwyddo lles a budd pennaf pawb i'w cadw'n ddiogel ac i gyflawni ein gwaith mewn ffyrdd sy'n eu hamddiffyn.

**Rydyn ni wedi ymrwymo i'r canlynol:**

- Amddiffyn yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys plant a phobl ifanc, sy'n cael cynnig neu sy'n derbyn gwasanaethau Cymorth i Ddioddefwyr, rhag unrhyw fath o gam-drin neu niwed. Mae hyn yn cynnwys plant a theuluoedd oedolion sy'n defnyddio ein gwasanaethau neu unrhyw blentyn, person ifanc neu oedolyn agored i niwed sy'n dod i'n sylw yn ystod ein gwaith.
- Amddiffyn unrhyw un sy'n gweithio i Cymorth i Ddioddefwyr neu ar ei ran, p'un ai ydyn nhw'n staff (gan gynnwys staff sesiynol neu asiantaeth, staff ar secondiad neu fyfyrwyr) neu'n wirfoddolwyr, rhag unrhyw fath o gam-drin neu niwed.
- Sicrhau bod ein holl weithgareddau'n cael eu cyflawni o fewn yr egwyddorion cyffredinol sy'n arwain ein dull o ddiogelu a bod y rhai sy'n gweithio i Cymorth i Ddioddefwyr yn cael gwiriadau priodol ac yn cynnal ein hymrwymiadau i ddiogelu.

**Mae llywodraethu mewnol o ran diogelu yn cynnwys:**

### Y Panel Diogelu

Y Prif Swyddog Gweithredol sy'n cadeirio'r Panel Diogelu. Mae'r cyfranogwyr yn cynnwys aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli, cynrychiolydd Bwrdd ac rydyn ni wedi penodi aelod annibynnol yn ddiweddar hefyd. Mae'r Panel yn goruchwylio diogelu yn Cymorth i Ddioddefwyr, ac mae'n gyfrifol am ddatblygu a monitro polisïau a gweithdrefnau diogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion y gallai fod angen eu diogelu ar draws y sefydliad. Mae'r Panel Diogelu yn diweddaru'r Bwrdd ym mhob un o'i gyfarfodydd ac yn cyflwyno Adroddiad Diogelu Blynyddol i'r Bwrdd bob blwyddyn.

### Y Grŵp Gweithrediadau Diogelu

Mae'r Grŵp Gweithrediadau Diogelu yn is-grŵp i'r Panel Diogelu. Mae'r grŵp hwn yn dod ag arbenigedd gweithredol ynghyd, gan rannu arferion da a chydlynu ac adolygu archwiliadau achosion diogelu mewnol.

### System Rheoli Ansawdd

Mae System Rheoli Ansawdd Cymorth i Ddioddefwyr yn dogfennu'r prosesau, y gweithdrefnau a'r cyfrifoldebau dros gyflawni polisïau ac amcanion ansawdd. Mae'n cael ei defnyddio i reoli pob polisi i sicrhau bod y dogfennau'n gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae dogfennau perthnasol yn cynnwys polisïau ar ddiogelu, gwiriadau DBS, gwrandawiadau disgyblu, cwynion a recriwtio.

Bydd ymgynghorydd allanol yn archwilio ein swyddogaeth diogelu yn 2021–22 er mwyn adolygu ein dull o lywodraethu ac ymarfer.

### Adolygu achosion a rheolwyr llinell

Mae staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio i Cymorth i Ddioddefwyr yn cael cyfarfodydd ffurfiol, rheolaidd â'u rheolwyr llinell, a byddan nhw'n trafod arferion a dulliau diogelu yn y cyfarfodydd hyn. Mae materion diogelu yn cael eu hystyried yn yr adolygiadau achos rheolaidd hefyd.

## Codi arian

Mae'r elusen yn codi arian gan roddwyr unigol, ymddiriedolaethau elusennol, cwmnïau a digwyddiadau her trydydd parti, heb ddefnyddio gwasanaethau codwyr arian proffesiynol na chyfranogwyr masnachol.

- Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn aelod o'r Rheoeiddiwr Codi Arian.
- Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn monitro gweithgareddau codi arian drwy gyfrwng cronfa ddata'r cefnogwyr a drwy werthuso canlyniadau ymgyrchoedd.
- Yn 2020–21 ni ddaeth unrhyw gwynion i law (2019–20: dim) ynghylch gweithgareddau codi arian.

Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn amddiffyn pobl agored i niwed ac aelodau eraill y cyhoedd rhag

ymddygiad ymwthiol neu barhaus drwy sicrhau bod modd nodi bod cefnogwr wedi optio allan ar y gronfa ddata, drwy fonitro dulliau cyfathrebu ynghylch codi arian a drwy beidio â gofyn am roddion fwy na dwywaith mewn blwyddyn.

Mae codi arian yn cyfrif am tua 2.7% (2019–20: 2.6%) o'n hincwm.

## Brexit

Rydyn ni'n cadarnhau ein bod wedi asesu effaith y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys effaith y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, a bod datgeliad yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr yn cyfleu'r asesiad hwnnw'n deg.

## Costau'r ymddiriedolwyr

Nid oedd taliadau cydnabyddiaeth na buddion i'r ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 (2019–20: dim). Roedd y costau a gafodd eu had-dalu ar gyfer y flwyddyn yn dod i gyfanswm o £0 (2019–20: £4,392).

## Sesiynau cynefino a hyfforddi ymddiriedolwyr

Mae ymddiriedolwyr newydd yn cael diwrnod cynefino, sy'n cynnwys cyfarfodydd â'r Cadeirydd, y Prif Swyddog Gweithredol ac aelodau'r Uwch Dîm Rheoli. Yn ogystal â chael amrywiaeth o ddeunyddiau cynefino ac ymweld â'n gwasanaethau, maen nhw'n cael gwybodaeth am eu rhwymedigaethau cyfreithiol o dan gyfraith cwmnïau ac elusennau, ac ar bolisïau sy'n benodol i Cymorth i Ddioddefwyr fel sefydliad. Cynhelir archwiliad blynyddol o sgiliau'r Bwrdd. Mae'r canlyniadau yn darparu gwybodaeth am y dull i'w ddilyn o ran hyfforddi a recriwtio.

## Aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor

### Aelodau'r Bwrdd

Mae rhestr lawn o aelodau'r Bwrdd (ymddiriedolwyr) ar gael ar dudalen 66.

Roedd presenoldeb yr ymddiriedolwyr yng nghyfarfodydd y Bwrdd drwy gydol y flwyddyn yn **95%**.

### Aelodau'r Pwyllgor

#### Y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg

Fe wnaeth y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg gwrdd chwe gwaith yn 2020–21. Mae'r aelodau'n cynnwys Kathryn Adkins (Cadeirydd), Andrew Tivey, Les Mosco (hyd at fis Tachwedd 2020), Lianne Smith a Moyna Wilkinson.

Hefyd, fe wnaeth is-bwyllgor o'r Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg, a oedd yn cynnwys y Trysorydd, y Cadeirydd a Les Mosco, gwrdd ddwywaith yn ystod y flwyddyn i adolygu rheolaeth ariannol yr elusen.

#### Pwyllgor y Bobl

Fe wnaeth Pwyllgor y Bobl gwrdd bedair gwaith yn 2020–21. Mae'r aelodau'n cynnwys Roger Harding (Cadeirydd), Amy Mary Rose Herring, Geoff Pollard (ymddiriedolwr hyd at fis Tachwedd 2020 ac Aelod Annibynnol ers hynny), Moyna Wilkinson a Derek Burnett (Aelod Annibynnol).

#### Y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth

Fe wnaeth y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth gwrdd ddwywaith yn 2020–21. Mae'r aelodau'n cynnwys Andrew Tivey (Cadeirydd), Les Mosco (hyd at fis Tachwedd 2020), Kathryn Adkins (o fis Chwefror 2021) a Roger Harding.


#### Bwrdd Cymru

Mae Bwrdd Cymru (Bwrdd Cymru Cymorth i Ddioddefwyr Cymru gynt) yn ystyried materion ac yn gwneud argymhellion polisi i Fwrdd Cymorth i Ddioddefwyr, gan nodi a yw materion yn cael effaith benodol ar Gymru ac a ddylai darpariaethau ar wahân fod yn berthnasol. Andrew Edwards (ymddiriedolwr) yw cadeirydd y Pwyllgor.

# Adroddiad y cadeirydd

Mae'r ymddiriedolwyr yn falch o gyflwyno adroddiad blynyddol y cyfarwyddwyr, ynghyd â datganiadau ariannol yr elusen ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, sydd hefyd wedi'u paratoi i fodloni'r gofynion am adroddiad y cyfarwyddwyr a chyfrifon at ddibenion y Ddeddf Cwmnïau.

Mae'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Deddf Cwmnïau 2006, Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu, a Chyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o'r Arfer a Argymhellir sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU ac yng Ngweriniaeth Iwerddon (FRS102).



**Andrew Tivey**
Cadeirydd

# Adolygiad ariannol

Roedd 2020–21 yn flwyddyn anarferol iawn i'r Elusen. Er bod cyfyngiadau'r cyfnod clo wedi effeithio ar yr Elusen (a gweddill y wlad) yn ystod y flwyddyn, llwyddodd yr Elusen i ennill llawer iawn o fusnes newydd i'w gyflawni yn y flwyddyn ac yn y dyfodol, ac fe wnaeth elwa o gyllid Covid untro, ac o ganlyniad mae wedi gallu buddsoddi mewn nifer o swyddi newydd a fydd yn gwella gallu'r sefydliad yn y dyfodol. Roedd yr incwm ychwanegol, yn ogystal â'r arbedion o ran costau, wedi arwain at ganlyniad llawer gwell na'r disgwyl.

## Mantolen

Roedd yr asedau net ar 31 Mawrth 2021 yn £9.1m (2019–20: £8.2m). Roedd £9.8m o hyn yn arian parod (2019–20: £5.9m). Roedd balans y dyledwyr masnach yn £2.9m (2019–20: £2.0m) sy'n cynrychioli 28 diwrnod yn ddyledus (2019–20: 18 diwrnod). Roedd y cynnydd ym malans yr arian parod yn cyd-fynd â chynnydd yn lefel yr incwm gohiriedig i £4.4m (2019–20: £0.7m). Talodd un cyllidwr grant tair blynedd yn llawn ym mis Ionawr 2021, sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r cynnydd. Mae'r fantolen yn parhau i fod yn gryf oherwydd y rheolaeth lem ar gyfalaf gweithio.

## Polisi cronfeydd wrth gefn

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg wedi adolygu'r polisi cronfeydd wrth gefn yn 2020–21 ac yn parhau i fod o'r farn mai cronfeydd rhydd wrth gefn, sy'n cael eu diffinio fel cronfeydd anghyfyngedig wrth gefn llai gwerth net ar bapur asedau sefydlog, yw'r mesur mwyaf priodol ar gyfer cronfeydd yr elusen o hyd. Gan ystyried yr amgylchedd busnes y mae'r elusen yn gweithredu oddi mewn iddo, mae'r bwrdd yn ystyried bod angen i'r elusen gadw digon o gronfeydd rhydd wrth gefn i dalu am: ymateb petai dirywiad ariannol sylweddol neu anawsterau, ymrwymiadau o dan gontract, gofynion cyfalaf gweithio ac anghenion datblygu'r elusen. Mae'r Bwrdd wedi amcangyfrif y dylid cynnal lefel y cronfeydd rhydd wrth gefn rhwng £3.5m–£5.5m.

## Cronfeydd wrth gefn

Roedd cyfanswm y cronfeydd wrth gefn ar 31 Mawrth 2021 yn £9.1m (2019–20: £8.2m) ac roedd £2.2m (2019–20: £2.1m) yn gyfyngedig a £6.9m (2019–20: £6.1m) yn anghyfyngedig.

Lefel y cronfeydd rhydd wrth gefn oedd £6.4m (2019–20: £5.0m) sy'n uwch na'r ystod uchaf yn y polisi cronfeydd wrth gefn. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon â hyn; mae cynlluniau i fuddsoddi rhywfaint o'r cronfeydd rhydd wrth gefn i ddatblygu'r gwasanaeth a chael system TG newydd yn 2021–22. Mae lefelau cronfeydd wrth gefn yn cael eu monitro'n rheolaidd a bydd cynlluniau gwario yn y dyfodol yn cael eu haddasu os bydd lefelau'r cronfeydd wrth gefn yn parhau i fod yn uwch nag ystod y targed.

## Busnes gweithredol

Mae'r elusen yn sicrhau cyfran sylweddol o'i hincwm o gontractau cyflenwi gwasanaethau a grantiau gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu, asiantaethau cyfiawnder troseddol, awdurdodau lleol a chyrff statudol eraill yn unol â gofynion gwasanaethau penodol.

Mae incwm contractau a grantiau yn cyfrannu tuag at gostau canolog rheoli'r elusen sy'n darparu systemau Cyllid, Technoleg Gwybodaeth ac Adnoddau Dynol canolog i gefnogi'r broses o gyflenwi contractau'n lleol; llwyfan technoleg sy'n sicrhau amgylchedd lletya data diogel iawn; system rheoli achosion sy'n gallu adrodd ar sail canlyniadau; cydymffurfio â GDPR; cydymffurfio â diogelu; cyflenwi ansawdd a safonau gwasanaeth cyson ar draws y rhanbarthau; parhau i rannu gwybodaeth; arloesi gyda gwasanaethau; ymchwil a chasglu data ar berfformiad a thueddiadau cenedlaethol.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried nifer o ffactorau cyn dod i'r casgliad ei bod yn briodol mabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn. Mae'r rhain wedi cynnwys:

- Dyfarniadau grant a chontractau disgwyliedig sydd ar y ffordd yn y dyfodol (gan fod yn sensitif i gyfraddau adnewyddu neu ennill yn y gorffennol) nid yn unig ar gyfer 2021–22 ond hefyd am gyfnod o flwyddyn o leiaf ar ôl cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn
- Manyldeb monitro'r hyn sydd ar y ffordd a'r rheolaeth dros gostau sydd ar waith i sicrhau bod yr elusen yn cael cyllideb gytbwys
- Rheolaethau arian parod a chyfalaf gweithio ar waith i reoli risgiau posib taliadau hwyr gan Gomisiynwyr ac i sicrhau bod cronfeydd cyfyngedig ac anghyfyngedig wrth gefn yn cael eu rholi'n briodol.

Ar ôl gwneud ymholiadau o'r fath, mae'r ymddiriedolwyr yn hyderus bod gan y sefydliad ddigon o adnoddau i weithredu hyd y gellir rhagweld ac yn gallu mabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi ei ddatganiadau ariannol.

## Y prif risgiau ac ansicrwydd

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am sicrhau bod systemau rheoli risg a rheolaethau mewnol digonol ar waith i reoli'r prif risgiau sy'n dod i ran Cymorth i Ddioddefwyr.

Mae strwythur llywodraethu a model gweithredu Cymorth i Ddioddefwyr wedi'u dylunio i sicrhau bod y prif risgiau a allai effeithio ar allu Cymorth i Ddioddefwyr i gyflawni ei amcanion strategol yn gallu cael eu rheoli'n effeithiol.

Y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg sy'n gyfrifol am fonitro pa mor effeithiol yw'r rheolaethau mewnol a'r dulliau rheoli risg ac am adrodd ei ganfyddiadau i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Gwneir hyn drwy:

- Adolygu systemau rheoli, rheoli risg a chydymffurfio Cymorth i Ddioddefwyr
- Cael sicrwydd ynghylch cynlluniau gwella cenedlaethol a chamau unioni drwy waith Cyfarfod Adolygiad Rheoli, sy'n ystyried cyfleoedd a risgiau sy'n dod i'r amlwg ac sy'n adolygu'r gwaith adolygu ansawdd, perfformiad a chydymffurfio, gan ystyried unrhyw ganfyddiadau sy'n codi
- Sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd gan y rheolwyr ynghylch argymhellion sy'n deillio o adolygiad annibynnol
- Adolygu natur a chwmpas archwiliad allanol. Bydd unrhyw faterion a godir gan archwiliad allanol at sylw'r rheolwyr, canfyddiadau sylweddol neu risgiau a nodir yn cael eu harchwilio er mwyn gallu cymryd camau priodol.

Mae'r broses o reoli risg o ddydd i ddydd yn cael ei dirprwyo i'r Prif Swyddog Gweithredol sy'n gweithio'n agos gyda'r Uwch Dîm Rheoli ac sy'n cael ei gefnogi gan y Tîm hwn. Mae strwythur rheoli llinell Cymorth i Ddioddefwyr yn cefnogi gwaith y pwyllgorau llywodraethu, y Prif Swyddog Gweithredol a'r Uwch Dîm Rheoli.

Adolygodd y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg strategaeth risg Cymorth i Ddioddefwyr yn ystod y flwyddyn, a chafodd ei chymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

## Y fframwaith rheoli risg

Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn cydnabod bod rheoli risg yn effeithiol yn dibynnu ar drefniadau cadarn a diwylliant o reoli risg sy'n treiddio drwy bob lefel a swyddogaeth weithredol yn y sefydliad. Er mwyn annog hyn, mae cydrannau o'r fframwaith rheoli risg yn cynnwys:

- Cynnal cofrestrau risg ar bob lefel briodol yn ogystal â'r gofrestr risgiau corfforaethol. Mae adolygu risgiau wedi'i gysylltu'n bendant â'r cylch cynllunio busnes, drwy adolygiad o'r brig i lawr gan yr Uwch Dîm Rheoli gan adrodd ymlaen i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, a swyddogaethau a rheolwyr unigol yn cyfeirio risgiau o'r gwaelod i fyny.
- Mae'r gofyn i asesu risg yn rhan annatod o gychwyn prosiect
- System sicrhau ansawdd sy'n bodloni meini prawf ISO 9001
- Cynnal a phrofi trefniadau parhad busnes i sicrhau ymateb effeithiol petai digwyddiad tyngedfennol, gan sicrhau bod system rheoli parhad busnes y sefydliad yn gadarn.

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn sicrhau bod pob cam priodol yn cael ei gymryd i leihau a rheoli'r risgiau y mae staff, gwirfoddolwyr, asedau ac enw da Cymorth i Ddioddefwyr yn eu hwynebu.

Mae'r prif risgiau y mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi'u canfod, a chynlluniau a strategaethau i'w rheoli, wedi'u nodi dros y dudalen:

| Risg | Rheoli |
| --- | --- |
| Methiant i gynnal hyfywedd ariannol | ■ Mae'r Uwch Dîm Rheoli a'r Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg yn adolygu perfformiad, amcanestyniadau, Dangosyddion Perfformiad Allweddol perthnasol a chyllidebau incwm a gwariant yn rheolaidd ac yn adrodd yn barhaus i'r Bwrdd<br>■ Modelu ariannol cadarn o ran incwm, costau, maint elw, cronfeydd wrth gefn, balansau arian parod a llif arian<br>■ Trosolwg o arian parod gan y Rheolwyr a'r Bwrdd, gan gynnwys sicrhau rheolaeth effeithiol dros delerau talu contractau a rheoli dyledwyr yn effeithiol<br>■ Monitro cysylltiadau â chomisiynwyr, perfformiad contractau ac unrhyw risg i gyllid<br>■ Canfod a cheisio cyfleoedd i arallgyfeirio a sicrhau twf incwm newydd yn llwyddiannus<br>■ Asesu cynigion a gollwyd i ganfod pam a pha gamau perthnasol sydd angen eu cymryd |
| Dydy'r system sicrhau ansawdd sydd ar waith ddim yn ddigonol neu'n briodol | ■ System Sicrhau Ansawdd sy'n bodloni meini prawf ISO 9001<br>■ Mae gan y Tîm Adolygiad Rheoli drosolwg o'r asesiad mewnol yn erbyn amcanion ansawdd, perfformiad a gofynion o dan gontract a chyfreithiol y sefydliad |
| Dydy prosiectau allweddol fel paratoi atebion digidol arloesol ar gyfer contractau allweddol ddim yn cael eu cyflawni ar amser, yn unol â'r gyllideb ac yn unol â'r cwmpas y cytunwyd arno | ■ Timau arbenigol yn adolygu perfformiad yn rheolaidd yn ôl cynlluniau busnes, darparu prosiectau allweddol a lleihau risgiau, gan adrodd yn barhaus i'r Uwch Dîm Rheoli a'r Bwrdd |

| Risg | Rheoli |
|---|---|
| Digwyddiadau fel twyll difrifol, tanseilio diogelwch data, digwyddiad iechyd a diogelwch, digwyddiad diogelu neu effaith arall methu â chydymffurfio ar enw da ac ansawdd gwasanaeth | ▪ Swyddogion lefel uwch yn ymwneud â gosod polisïau a gwella prosesau rheoli perfformiad ac adrodd yn barhaus<br>▪ Hyfforddiant cynhwysfawr i staff a gwirfoddolwyr<br>▪ Arbenigwyr ymroddedig ym meysydd diogelu, iechyd a diogelwch, diogelu data, diogelwch gwybodaeth ac ansawdd a pherfformiad<br>▪ Adolygu a buddsoddi mewn systemau TG a rhannu gwybodaeth yn rheolaidd<br>▪ Adolygu mesurau diogelu mewnol ac allanol a'r polisi diogelu i sicrhau y cydymffurfir yn barhaus ag arferion gorau<br>▪ Y Tîm Adolygiad Rheoli yn monitro cydymffurfiaeth yn rheolaidd<br>▪ Adolygiad llywodraethu i sicrhau bod systemau ar waith i sicrhau bod y Bwrdd yn parhau i gael gwybodaeth am faterion allweddol |
| Asedau ffisegol ddim yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon yn ofalus er mwyn bodloni anghenion gweithredol | ▪ Adolygu'r portffolio eiddo yn rheolaidd gyda'r Uwch Dîm Rheoli a'r ymddiriedolwyr yn cael trosolwg o hynny<br>▪ Trafodion sy'n berthnasol i asedau allweddol yn cael eu hadolygu gan yr Uwch Dîm Rheoli a'r ymddiriedolwyr<br>▪ Y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg gyda throsolwg o fuddsoddiadau mewn asedau ffisegol, gan gynnwys systemau TG |
| Dydy gweithwyr a gwirfoddolwyr gyda sgiliau allweddol ddim yn cael eu denu, eu datblygu na'u cadw i sicrhau'r medrusrwydd, y gallu a'r hyblygrwydd angenrheidiol | ▪ Rhaglenni hyfforddi ac e-Ddysgu<br>▪ Arolygon ymgysylltu â staff a gwirfoddolwyr a chynlluniau gweithredu dilynol |
| Risg ariannol: mae prif asedau ariannol yr elusen yn falansau banc ac yn symiau derbyniadwy, sy'n ddarostyngedig i risg credyd | ▪ Polisi a gweithdrefnau ariannol<br>▪ Mae'r Uwch Dîm Rheoli a'r Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg yn adolygu risg ariannol yn rheolaidd ac yn adrodd yn barhaus i'r Bwrdd |

# Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr o ran y datganiadau ariannol

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr yr elusen at ddibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â chyfraith gymwys ac Ymarfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig).

Mae cyfraith cwmnïau yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan gyfraith cwmnïau, rhaid i ymddiriedolwyr beidio â chymeradwyo'r datganiadau ariannol os nad ydyn nhw'n fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol a'r grŵp ac o'r adnoddau sy'n dod i mewn a'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio, gan gynnwys incwm a gwariant y grŵp elusennol ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- Dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u defnyddio'n gyson;
- Cadw at ddulliau ac egwyddorion y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau (FRS102);
- Dyfarnu a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbodus;
- Datgan a yw safonau cyfrifyddu perthnasol y DU wedi cael eu dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a gafodd eu datgelu a'u hesbonio yn y datganiadau ariannol; a
- Pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol rhagdybio y bydd yr elusen yn parhau i fod mewn busnes.


Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol sy'n ddigonol i ddangos ac esbonio trafodion y cwmni elusennol, gan ddatgelu gyda chywirdeb rhesymol beth yw sefyllfa ariannol y cwmni ar unrhyw adeg, a'u galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006 a darpariaethau cyfansoddiad yr elusen. Maen nhw hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen a'r grŵp, dyna pam eu bod yn cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

## Datganiad fel datgeliad i'r archwilwyr

I'r graddau y mae'r ymddiriedolwyr yn ymwybodol ar adeg cymeradwyo eu hadroddiad blynyddol:

- Does dim gwybodaeth archwilio berthnasol, sef gwybodaeth sydd ei hangen ar yr archwilydd i baratoi ei adroddiad, nad yw archwilydd y grŵp yn ymwybodol ohoni; ac
- Mae'r ymddiriedolwyr, ar ôl i bob un ohonyn nhw'n unigol holi eu cyd gyfarwyddwyr ac archwilydd y grŵp, fel y dylen nhw fod wedi'i wneud, i gyd wedi cymryd y camau y maen nhw'n gorfod eu cymryd fel cyfarwyddwyr i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Cymeradwyodd yr ymddiriedolwyr yr Adroddiad Strategol ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ar 8 Hydref 2021, ac fe'u llofnodwyd ar eu rhan gan:



**Andrew Tivey**
Cadeirydd

# Adroddiad yr archwilydd

## Adroddiad yr archwilydd annibynnol i aelodau Cymorth i Ddioddefwyr

### Barn

Rydyn ni wedi archwilio datganiadau ariannol Cymorth i Ddioddefwyr (y rhiant-elusen) a'i is-gwmnïau ('y grŵp') ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, sy'n cynnwys y Datganiad Cyfunol o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen Gyfunol a Mantolen yr Elusen, y Datganiad Cyfunol o Lif Arian a nodiadau ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adroddiadau ariannol sydd wedi'i ddefnyddio i'w paratoi yw'r gyfraith gymwys a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys FRS 102 "Y Safon Adroddiadau Ariannol sy'n berthnasol yn y DU ac yng Ngweriniaeth Iwerddon" (Ymarfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion y grŵp a'r rhiant-elusen fel yr oedden nhw ar 31 Mawrth 2021 ac o incwm a gwariant y grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi yn briodol yn unol ag Ymarfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

### Y sail dros y farn

Fe wnaethon ni gynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs (DU)) a'r gyfraith gymwys. Mae ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn cael eu disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol yn ein hadroddiad. Rydyn ni'n annibynnol ar yr elusen, yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i ni'n archwilio datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Moesegol FRC ac rydyn ni wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rydyn ni'n credu bod y dystiolaeth archwilio rydyn ni wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i fod yn sail ar gyfer ein barn.

### Casgliadau yng nghyswllt busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydyn ni wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o sail busnes gweithredol cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail ein gwaith, dydyn ni ddim wedi canfod unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau sydd, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd, yn gallu taflu amheuon sylweddol ar allu'r grŵp neu'r rhiant-elusen i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r cyfnod pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Mae ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr o ran y busnes gweithredol, yn cael eu disgrifio yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

### Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr, ar wahân i'r datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilydd wedi hynny. Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall. Dydy ein barn ar y datganiadau ariannol ddim yn cynnwys yr wybodaeth arall, ac, heblaw am i'r graddau y nodir yn glir fel arall yn ein hadroddiad, dydyn ni ddim yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicr ar hyn.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, mae'n gyfrifoldeb arnom i ddarllen yr wybodaeth arall, ac wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu â'r wybodaeth rydyn ni wedi'i chasglu yn ystod yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos ei bod wedi cael ei chamfynegi fel arall. Os byddwn ni'n canfod anghysondebau sylweddol o'r fath neu gamfynegiannau sylweddol amlwg, mae gofyn i ni benderfynu ai camfynegiant sylweddol yn y datganiadau ariannol yw hynny neu gamfynegiant sylweddol o'r wybodaeth arall. Os, ar sail ein gwaith, rydyn ni'n dod i'r casgliad bod camfynegiant sylweddol o'r wybodaeth arall hon, mae gofyn i ni adrodd am hynny.

Does gennym ni ddim byd i'w adrodd yn hyn o beth.

### Barn ar faterion eraill a bennwyd gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn ein barn ni, ar sail ein gwaith yn ystod yr archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr, sy'n cynnwys Adroddiad y Cyfarwyddwyr, a baratowyd at ddibenion cyfraith cwmnïau, ar gyfer y flwyddyn ariannol y cafodd y datganiadau ariannol eu paratoi, yn gyson â'r datganiadau ariannol; ac
- mae Adroddiad y Cyfarwyddwyr, sydd wedi'i gynnwys yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr, wedi cael ei baratoi yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

### Materion y mae gofyn i ni adrodd arnyn nhw drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r elusen a'i hamgylchiadau, a gasglwyd yn ystod yr archwiliad, dydyn ni ddim wedi canfod unrhyw gamfynegiannau sylweddol yn yr Adroddiad Strategol nac yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr, sydd wedi'u cynnwys yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr.

Does gennym ni ddim byd i'w adrodd ar y materion canlynol, y mae Deddf Cwmnïau 2006 yn gofyn i ni adrodd amdanyn nhw i chi, yn ein barn ni:

- does dim cofnodion cyfrifyddu digonol a phriodol wedi cael eu cadw, neu dydyn ni ddim wedi derbyn ffurflenni digonol gan ganghennau na wnaethon ni ymweld â nhw; neu
- dydy'r datganiadau ariannol ddim yn cyd-fynd â'r ffurflenni a'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- dydy datgeliadau penodol o daliadau cydnabyddiaeth ymddiriedolwyr, sy'n cael eu nodi gan y gyfraith, ddim wedi cael eu gwneud; neu
- dydyn ni ddim wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnom ni ar gyfer ein harchwiliad.

### Cyfrifoldeb yr Ymddiriedolwyr

Fel sy'n cael ei esbonio'n fwy manwl yn y datganiad o gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr ar dudalen 43, mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y rhiant-elusen at ddibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am reolaeth fewnol o'r fath ag y mae'r ymddiriedolwyr yn penderfynu sy'n angenrheidiol i allu paratoi'r datganiadau ariannol, sydd ddim yn cynnwys unrhyw gamfynegiannau sylweddol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r grŵp a'r rhiant-elusen i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n briodol, materion sy'n berthnasol i fusnes gweithredol a defnyddio sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifyddu, oni bai bod yr ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r elusen neu roi'r gorau i weithredu, neu os nad oes dewis arall realistig heblaw am wneud hynny.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol, fel cyfanwaith, yn rhydd o unrhyw gamfynegiant sylweddol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad yr archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn sicrwydd lefel uchel, ond dydy hynny ddim yn gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camfynegiant sylweddol pan fydd un. Gall camfynegiannau godi o ganlyniad i dwyll neu wall, ac maen nhw'n cael eu hystyried yn sylweddol os, naill ai ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl yn rhesymol iddyn nhw ddylanwadu ar y penderfyniadau economaidd y bydd defnyddwyr yn eu gwneud ar sail y datganiadau ariannol.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rydyn ni'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camfynegiannau sylweddol o ran afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Ar sail ein dealltwriaeth o'r elusen a'i gweithgareddau, rydyn ni wedi nodi bod y prif risgiau o beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau yn ymwneud â Deddf Elusennau 2011, deddfwriaeth trethi'r DU, deddfwriaeth pensiynau, rheoliadau cyflogaeth a rheoliadau iechyd a diogelwch, gwrth-lwgrwobrwyo, llygredigaeth a thwyll, gwyngalchu arian, diffyg cydymffurfio â rhoi cynlluniau cymorth y llywodraeth ar waith yng nghyswllt Covid-19, ac fe wnaethon ni ystyried i ba raddau y byddai peidio â chydymffurfio yn cael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol. Fe wnaethon ni hefyd ystyried y deddfau a'r rheoliadau sy'n cael effaith uniongyrchol ar baratoi'r datganiadau ariannol, fel Deddf Cwmnïau 2006 a Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau.

Fe wnaethon ni werthuso cymhellion a chyfleoedd yr ymddiriedolwyr a'r rheolwyr i gam-drafod y datganiadau ariannol yn dwyllodrus (gan gynnwys y risg o ddiystyru rheolaethau) a phenderfynu bod y prif risgiau'n ymwneud â gwneud cofnodion mewn dyddlyfrau â llaw i gam-drafod perfformiad ariannol, rhagfarn rheolwyr drwy ddyfarniadau a rhagdybiaethau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol, yn arbennig o ran defnyddio cronfeydd cyfyngedig, a thrafodion anarferol neu untro.

Cafodd ein gweithdrefnau archwilio eu dylunio i ymateb i'r risgiau hyn sydd wedi'u nodi, gan gynnwys peidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau (afreoleidd-dra) a thwyll sy'n berthnasol i'r datganiadau ariannol. Roedd ein gweithdrefnau archwilio yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- trafod eu polisïau a'u gweithdrefnau o ran cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau â'r ymddiriedolwyr a'r rheolwyr;
- cyfathrebu deddfau a rheoliadau a nodwyd drwy ein tîm ymgysylltu a pharhau i fod yn wyliadwrus am unrhyw arwydd o beidio â chydymffurfio drwy ein harchwiliad; ac
- ystyried y risg o weithredoedd gan y grŵp a'r rhiant-elusen, a oedd yn groes i'r cyfreithiau cymwys a'r rheoliadau, gan gynnwys twyll.

Roedd ein gweithdrefnau archwilio yng nghyswllt twyll yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- holi'r ymddiriedolwyr a'r rheolwyr a oedden nhw'n gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheus neu honedig;
- cael dealltwriaeth o'r rheolaethau mewnol a sefydlwyd i leihau risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll;
- trafod risgiau twyll â'r tîm ymgysylltu; a
- rhoi sylw i risgiau twyll drwy reolwyr yn diystyru rheolaethau drwy brofi cofnodion mewn dyddlyfrau.

Mae cyfyngiadau cynhenid yn y gweithdrefnau archwilio sy'n cael eu disgrifio uchod, a'r rheolwyr sy'n bennaf gyfrifol am atal a chanfod achosion o afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Fel sy'n wir am unrhyw archwiliad, roedd risg o beidio â chanfod afreoleidd-dra, gan y byddai'n bosib i'r rhain gynnwys cydgynllwyn, ffugio, gadael pethau allan yn fwriadol, camliwio neu ddiystyru rheolaethau mewnol.

Mae disgrifiad o'n cyfrifoldebau wrth archwilio datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol ar **www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities**. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad yr archwilydd.

## Defnyddio'r adroddiad archwilio

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi'n unig ar gyfer aelodau'r elusen fel corff yn unol â Phennod 3, Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Mae ein gwaith archwilio wedi'i gynnal er mwyn i ni allu datgan i aelodau'r elusen y materion hynny mae gofyn i ni eu datgan wrthyn nhw mewn adroddiad archwilydd a dim ar gyfer unrhyw ddiben arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, dydyn ni ddim yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb dros unrhyw un heblaw am yr elusen ac aelodau'r elusen fel corff am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn neu am y farn rydyn ni wedi'i ffurfio.

N J Wakefield

**Nicola Wakefield**
Uwch Archwilydd Statudol

Dros ac ar ran Mazars LLP
Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilydd Statudol
6 Sutton Plaza, Sutton Court Road, Sutton, Surrey SM1 4FS

Dyddiad: 11 Tachwedd 2021



YN ÔL I'R CYNNWYS

# Datganiadau Ariannol

## Datganiad cyfunol o weithgareddau ariannol

### Datganiad cyfunol o weithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021


| | Nodiadau | Anghyfyngedig 31.03.21 £000 | Cyfyngedig 31.03.21 £000 | Cyfanswm 31.03.21 £000 | Anghyfyngedig 31.03.20 £000 | Cyfyngedig 31.03.20 £000 | Cyfanswm 31.03.20 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Incwm: | | | | | | | |
| Gweithgareddau elusennol | 2.1 | 26,856 | 12,917 | 39,773 | 25,349 | 11,001 | 36,350 |
| Codi arian | 2.2 | 279 | 449 | 728 | 52 | 667 | 719 |
| Gweithgareddau masnach eraill | 2.3 | 210 | 319 | 529 | 281 | 159 | 440 |
| Buddsoddiadau | 2.4 | 5 | – | 5 | 23 | – | 23 |
| Incwm arall | 2.5 | – | – | – | 85 | – | 85 |
| **Cyfanswm yr incwm** | | **27,350** | **13,685** | **41,035** | **25,790** | **11,827** | **37,617** |
| **Gwariant:** | | | | | | | |
| Codi arian | 3.1 | 178 | – | 178 | 184 | – | 184 |
| **Gweithgareddau elusennol** | 3.2 | | | | | | |
| Cyflenwi gwasanaethau | | 25,755 | 13,649 | 39,404 | 25,288 | 11,827 | 37,115 |
| Llais y dioddefwyr | | 600 | – | 600 | 510 | – | 510 |
| Ailstrwythuro a datblygu | | – | – | – | 1 | – | 1 |
| **Cyfanswm y gwariant elusennol** | | **26,355** | **13,649** | **40,004** | **25,799** | **11,827** | **37,626** |
| **Cyfanswm y gwariant** | | **26,533** | **13,649** | **40,182** | **25,983** | **11,827** | **37,810** |
| Incwm net/(gwariant) | | 817 | 36 | 853 | (193) | – | (193) |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd | 16 | (7) | 7 | – | (2) | 2 | – |
| **Symudiad net mewn cronfeydd yn y flwyddyn** | | **810** | **43** | **853** | **(195)** | **2** | **(193)** |
| **Cysoni cronfeydd** | | | | | | | |
| Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill | | 6,094 | 2,113 | 8,207 | 6,289 | 2,111 | 8,400 |
| **Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth** | | **6,904** | **2,156** | **9,060** | **6,094** | **2,113** | **8,207** |

# Y fantolen ar 31 Mawrth 2021


| | | Cyfunol | | Elusen (2158780) | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 31.03.21 | 31.03.20 | 31.03.21 | 31.03.20 |
| | Nodiadau | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Asedau sefydlog diriaethol** | | | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 8 | 523 | 1,070 | 523 | 1,070 |
| Buddsoddiadau mewn is-gwmnïau | 10 | – | – | 10 | 10 |
| **Cyfanswm yr asedau sefydlog** | | 523 | 1,070 | 533 | 1,080 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Dyledwyr a rhagdaliadau | 11 | 6,555 | 5,040 | 6,573 | 5,033 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | | 9,786 | 5,877 | 9,741 | 5,866 |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | 16,341 | 10,917 | 16,314 | 10,899 |
| **Credydwyr** | | | | | |
| Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn | 12 | (7,406) | (3,377) | (7,389) | (3,368) |
| **Asedau cyfredol net** | | 8,935 | 7,540 | 8,925 | 7,531 |
| Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau | 14 | (398) | (403) | (398) | (403) |
| **Asedau net** | | 9,060 | 8,207 | 9,060 | 8,208 |
| **Cronfeydd** | | | | | |
| Cronfeydd anghyfyngedig | 16 | 6,904 | 6,094 | 6,904 | 6,094 |
| Cronfeydd cyfyngedig | 16 | 2,156 | 2,113 | 2,156 | 2,114 |
| **Cyfanswm cyfalaf cyfranddaliadau a chronfeydd** | | 9,060 | 8,207 | 9,060 | 8,208 |

Arian dros ben y rhiant-elusen ar gyfer y flwyddyn oedd £853,000 (2019–20: diffyg o £193,000).

Mae'r nodiadau ar dudalennau 50 i 59 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn. Cymeradwyodd y Bwrdd y datganiadau ariannol ar 8 Hydref 2021, a chawsant eu llofnodi ar ran y Bwrdd gan:



**Andrew Tivey**
Cadeirydd



**Kathryn Adkins**
Trysorydd

# Datganiad cyfunol llif arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

| | Nodiadau | 31.03.21 £000 | 31.03.20 £000 |
|---|---|---|---|
| Mewnlif arian parod net/(all-lif) o weithgareddau gweithredu | a | 3,909 | (784) |
| Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi: llog a dderbyniwyd | b | 5 | 23 |
| Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol | c | – | – |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) yn yr arian parod yn ystod y cyfnod adrodd** | | **3,909** | **(761)** |
| Cysoni llif arian parod net â'r symudiad mewn arian parod net | | | |
| Cynnydd/(Gostyngiad) yn yr arian parod yn ystod y cyfnod adrodd | | 3,909 | (761) |
| Arian parod net ar 1 Ebrill | | 5,877 | 6,638 |
| **Arian parod net ar 31 Mawrth** | | **9,786** | **5,877** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 50 i 59 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Nodiadau ar y datganiad o lif arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

**a. Cysoni llif arian o weithgareddau gweithredu i'r adnoddau net i mewn**

| | 31.03.21 £000 | 31.03.20 £000 |
|---|---|---|
| Incwm net/(gwariant) ar gyfer y cyfnod adrodd | 853 | (193) |
| Addasiadau ar gyfer: | | |
| Taliadau dibrisiant | 547 | 569 |
| Enillion ar fuddsoddiadau | – | – |
| Llog a dderbyniwyd | (5) | (23) |
| Difidendau a dderbyniwyd | – | – |
| Cynnydd mewn dyledwyr | (1,515) | (675) |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn credydwyr | 4,024 | (462) |
| **Arian parod net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau gweithredu** | **3,904** | **(784)** |

**b. Dadansoddiad o lif arian fel y gwelir ar y datganiad llif arian**

**Enillion ar fuddsoddiadau a chynnal cyllid**

| | 31.03.21 £000 | 31.03.20 £000 |
|---|---|---|
| Llog a dderbyniwyd | (5) | (23) |
| **Mewnlif arian net ar gyfer enillion ar fuddsoddiadau a chynnal cyllid** | **(5)** | **(23)** |

**c. Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol**

| | 31.03.21 £000 | 31.03.20 £000 |
|---|---|---|
| Prynu asedau sefydlog diriaethol | – | – |
| Gwerthu buddsoddiad sy'n ased sefydlog | – | – |
| **Mewnlif arian net ar gyfer gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol** | **–** | **–** |

| | 01.04.20 £000 | Symudiad £000 | 31.03.21 £000 |
|---|---|---|---|
| **Arian net** | | | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 5,877 | 3,909 | 9,786 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 50 i 59 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Nodiadau ar y datganiadau ariannol

Mae'r elusen yn gwmni cyfyngedig trwy warant (rhif cofrestru 2158780) sy'n gorfforedig ac wedi'i leoli yn y DU ac mae'n endid budd y cyhoedd. Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw 1 Bridge Street, Derby DE1 3HZ.

## 1. Polisïau cyfrifyddu

### Sail y paratoi

Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol, gan eithrio buddsoddiadau, sydd wedi'u cynnwys ar werth y farchnad, ac yn unol â Safonau Cyfrifyddu perthnasol y Deyrnas Unedig, gan gynnwys y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau, FRS102 (*Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau*) a gyhoeddwyd yn 2019 a Deddf Cwmnïau 2006. Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn bodloni'r diffiniad o endid budd y cyhoedd o dan FRS102. Mae asedau a rhwymedigaethau yn cael eu cydnabod ar werth trafodion neu gostau hanesyddol oni nodir yn wahanol yn nodyn y polisi cyfrifyddu.

Does dim datganiad o weithgareddau ariannol (SOFA) ar wahân wedi'i gyflwyno fel y caniateir gan adran 408 Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r elusen wedi manteisio ar yr eithriadau sydd ar gael yn FRS102 o'r gofynion i gyflwyno datganiad o lif arian yr elusen yn unig a datgeliadau penodol am offerynnau ariannol yr elusen.

### Datganiadau ariannol y grŵp

Mae datganiadau ariannol y grŵp yn cyfuno datganiadau ariannol Cymorth i Ddioddefwyr ac ymrwymiadau ei is-gwmnïau, sef Victims Support Limited (rhif cofrestru: 02609147) a VS trading (Cornwall) Limited (rhif cofrestru: 04631310), ar sail llinell wrth linell.

### Busnes gweithredol

Mae'n rhesymol i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ddisgwyl y bydd digon o adnoddau i barhau i weithredu hyd y gellir rhagweld.

Mae Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr (tudalen 15) yn trafod y materion a gafodd eu hystyried wrth ddod i'r casgliad hwnnw, yn benodol, gwerth llyfr archebion y cwmni, y sefyllfa o ran arian a chyfalaf gweithio, yn ogystal â'r cronfeydd wrth gefn a'r gweithgareddau o ran cynigion.

Felly, mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar y sail bod yr elusen yn fusnes gweithredol.

### Dyfarniadau ac amcangyfrifon sylweddol

Mae'r prif ffynonellau ansicrwydd yn ein hamcangyfrifon, sy'n cael effaith sylweddol ar y symiau sy'n cael eu cydnabod yn y datganiadau ariannol yn cael eu disgrifio yn y polisïau cyfrifyddu ac yn cael eu crynhoi isod:

- Darpariaeth dadfeiliad – mae'r elusen wedi darparu ar gyfer ei rhwymedigaeth bosib o ran ei eiddo sydd ar brydles, ac mae hyn wedi cael ei amcangyfrif a'i ddatgelu yn nodyn 14.

### Cydnabod incwm

Mae pob incwm wedi'i gynnwys yn y SOFA pan fydd gan yr elusen hawl gyfreithiol i'r incwm hwnnw, pan fydd yn debygol o gael hynny a phan fydd modd ei ddynodi â chywirdeb rhesymol.

Mae rhoddion yn cael eu cynnwys yn y SOFA pan fyddan nhw'n cael eu derbyn. Caiff incwm o wasanaethau a roddir a nwyddau eu cydnabod fel incwm pan fydd y darparwr wedi mynd i gost ariannol a phan fydd modd meintioli'r budd i'r elusen.

Does dim symiau wedi'u cynnwys yn y cyfrifon am wasanaethau gwirfoddolwyr.

Mae incwm cymynrodd wedi'i gynnwys yn y cyfrifon pan fydd gan yr elusen yr hawl i hyn, a phan fydd yn debygol y bydd yn derbyn hyn a bod modd ei fesur.

Caiff grantiau eu cydnabod yn llawn yn y SOFA yn y flwyddyn y byddan nhw'n cael eu derbyn, oni bai fod cytundeb unrhyw grant yn nodi'n benodol bod y grant i'w ddefnyddio mewn cyfnod cyfrifyddu yn y dyfodol, ac os felly, bydd yr incwm yn cael ei ohirio. Ar gyfer grantiau sy'n ymwneud â pherfformiad, mae incwm yn cael ei gydnabod drwy ddefnyddio cyfran y costau a geir ar gyfer y gwaith a wnaed hyd yma a chymharu â dull rhagolwg cyfanswm y costau i gwblhau.

Caiff refeniw o gontractau ei gydnabod i'r graddau y mae'r gweithgareddau sydd wedi'u nodi yn y cytundeb wedi cael eu cwblhau. Yn gyffredinol, mae hyn gyfwerth â'r gwariant cysylltiedig a gafwyd yn y cyfnod a'r gorbenion cysylltiedig. Mae arian a dderbyniwyd cyn i'r refeniw gael ei ennill yn cael ei ddangos fel incwm gohiriedig.

Swm sy'n deillio o weithgareddau arferol yw incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau. Mae incwm yn cael ei gydnabod heb gynnwys TAW pan fo hynny'n berthnasol. Mae nwyddau a roddwyd i'w gwerthu yn y siop elusen yn cael eu dangos fel incwm ar ôl iddyn nhw gael eu gwerthu.

## Gwariant

Mae gwariant yn cael ei gynnwys ar sail groniadol ac mae'n cael ei gydnabod pan fydd dyletswydd gyfreithiol neu ymarferol i dalu. Mae gwariant yn cael ei nodi heb gynnwys TAW y gellir ei hadennill pan fo hynny'n berthnasol ond mae'n cynnwys unrhyw TAW na ellir ei hadennill hefyd.

Mae gwariant elusennol uniongyrchol yn cynnwys costau uniongyrchol, costau sy'n cael eu rhannu a chostau anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â phrif weithgareddau'r sefydliad. Mae hyn yn cynnwys grantiau sydd wedi'u cymeradwyo a chostau cefnogi.

Mae grantiau sy'n daladwy yn cael eu codi yn y flwyddyn pan fydd y cynnig yn cael ei wneud i'r derbynnydd, heblaw yn yr achosion hynny lle mae amodau ynghlwm â'r cynnig. Mae grantiau gydag amodau'n cael eu cydnabod fel gwariant pan fydd yr amodau'n cael eu bodloni. Os nad yw'r amodau wedi cael eu bodloni ar ddiwedd y flwyddyn, caiff y grantiau eu nodi fel ymrwymiad, ond ni fyddan nhw'n cael eu dangos fel gwariant.

Mae gwariant ar godi arian yn cynnwys costau uniongyrchol, costau sy'n cael eu rhannu a chostau anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau cynhyrchu incwm y sefydliad.

## Asedau sefydlog

Mae eitemau o gyfarpar yn cael eu cyfalafu pan fydd y pris prynu yn fwy na £5,000. Mae costau dibrisiant yn cael eu dyrannu i weithgareddau ar sail defnydd. Caiff dibrisiant ei ddarparu ar gyfraddau sy'n cael eu cyfrifo i ddileu cost pob ased dros ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig: ar gyfer meddalwedd a seilwaith TG a gosodiadau a ffitiadau, mae hyn yn bum mlynedd. Mae gwelliannau prydlesol yn cael eu dibrisio dros gyfnod y brydles.

## Cronfeydd

Mae cronfeydd cyfyngedig i'w defnyddio at y dibenion sy'n cael eu pennu gan y rhoddwr. Mae modd priodoli gwariant perthnasol i'r gronfa ynghyd â dyraniad teg o gostau rheoli a chefnogi pan fydd y rhoddwr yn caniatáu hyn. Mae incwm sy'n cael ei gynhyrchu'n lleol yn cael ei drin fel incwm cyfyngedig fel arfer, gan y bydd yn cael ei ddefnyddio yn lleoliad y rhoddwr; er enghraifft, bydd grantiau gan awdurdodau lleol a chyrff statudol eraill yn cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau o fewn ffiniau'r awdurdod lleol.

Mae cronfeydd anghyfyngedig ar gael ar gyfer amcanion cyffredinol yr elusen.

## Pensiynau

Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn gweithredu cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Mae asedau'r cynllun yn cael eu dal ar wahân i rai Cymorth i Ddioddefwyr mewn cronfa sy'n cael ei gweinyddu'n annibynnol. Mae costau'r pensiwn yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy gan Cymorth i Ddioddefwyr, ac nid oes ganddo unrhyw rwymedigaeth arall o dan y cynllun.

## Prydlesi gweithredu

Mae rhenti sy'n daladwy o dan brydlesi gweithredu, lle mae holl risgiau a gwobrau perchnogaeth yn parhau i ddisgyn yn sylweddol ar y prydleswr, yn cael eu codi ar y SOFA ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

## Buddsoddiadau

Mae buddsoddiad mewn is-gwmni'n cael ei nodi ar gost llai unrhyw amhariad. Mae buddsoddiadau sydd wedi'u rhestru wedi'u cynnwys ar werth y farchnad ar ddyddiad y fantolen.

Mae'r SOFA yn cynnwys enillion a cholledion sy'n deillio o ailbrisio a gwarediadau yn ystod y flwyddyn.

## Offerynnau ariannol

Dim ond asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol o'r math sy'n cael eu galw'n offerynnau ariannol sylfaenol sydd gan yr elusen. Mae offerynnau ariannol sylfaenol yn cael eu cydnabod i ddechrau ar werth trafodion ac yna'n cael eu mesur yn ôl eu gwerth setliad.

## 2. Incwm

| | Anghyfyngedig | Cyfyngedig | 31.03.21 Cyfanswm | Anghyfyngedig | Cyfyngedig | 31.03.20 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **2.1 Incwm o weithgareddau elusennol** | | | | | | |
| Lladdiadau MoJ | – | 3,610 | 3,610 | – | 3,409 | 3,409 |
| Awdurdodau lleol a chyrff statudol eraill | 1,569 | 1,672 | 3,241 | 1,573 | 1,980 | 3,553 |
| Yr heddlu ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill | 24,330 | 6,465 | 30,795 | 23,073 | 4,684 | 27,757 |
| Grantiau a chontractau eraill | 957 | 1,170 | 2,127 | 703 | 928 | 1,631 |
| **Cyfanswm** | **26,856** | **12,917** | **39,773** | **25,349** | **11,001** | **36,350** |
| **2.2 Incwm o godi arian** | | | | | | |
| Rhoddion | 71 | 6 | 77 | 36 | 18 | 54 |
| Cymynroddion | 33 | 6 | 39 | 16 | 162 | 178 |
| Grantiau | – | 437 | 437 | – | 487 | 487 |
| Gwasanaethau a roddwyd | 175 | – | 175 | – | – | – |
| **Cyfanswm** | **279** | **449** | **728** | **52** | **667** | **719** |
| **2.3 Gweithgareddau masnach eraill** | | | | | | |
| Digwyddiadau codi arian | 73 | 319 | 392 | 119 | 154 | 273 |
| Gweithrediadau masnachu | 137 | – | 137 | 162 | 5 | 167 |
| **Cyfanswm** | **210** | **319** | **529** | **281** | **159** | **440** |
| **2.4 Llog a dderbyniwyd** | 5 | – | 5 | 23 | – | 23 |
| **2.5 Incwm arall** | – | – | – | 85 | – | 85 |
| **Cyfanswm yr incwm** | **27,350** | **13,685** | **41,035** | **25,790** | **11,827** | **37,617** |

## 3. Gwariant

| | Anghyfyngedig | Cyfyngedig | 31.03.21 Cyfanswm | Anghyfyngedig | Cyfyngedig | 31.03.20 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **3.1 Cost codi arian** | 178 | – | 178 | 184 | – | 184 |
| **Cyfanswm** | **178** | **–** | **178** | **184** | **–** | **184** |
| **3.2 Gweithgareddau elusennol** | | | | | | |
| Cyflenwi gwasanaethau | 25,755 | 13,649 | 39,404 | 25,288 | 11,287 | 37,115 |
| Llais y dioddefwyr | 600 | – | 600 | 510 | – | 510 |
| Ailstrwythuro a datblygu | – | – | – | 1 | – | 1 |
| Cyfanswm y gwariant elusennol | 26,355 | 13,649 | 40,004 | 25,799 | 11,287 | 37,626 |
| **Cyfanswm y gwariant** | **26,533** | **13,649** | **40,182** | **25,983** | **11,287** | **37,810** |

## 4. Mae cyfanswm y gwariant yn cynnwys taliadau am:

| | | | 31.03.21 | | | 31.03.20 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Anghyfyngedig | Cyfyngedig | Cyfanswm | Anghyfyngedig | Cyfyngedig | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Dibrisiant | 547 | – | 547 | 569 | – | 569 |
| Ad-dalu costau'r ymddiriedolwyr | – | – | – | 4 | – | 4 |
| Ffioedd archwilio | 28 | – | 28 | 37 | – | 37 |
| Rhent prydles weithredu | 1,090 | – | 1,090 | 1,022 | – | 1,022 |

Y ffioedd archwilio ar gyfer y flwyddyn oedd £28,000 (2019–20: £37,000)

## 5. Costau cymorth

| | Codi arian | Cyflenwi gwasanaethau | Llais y dioddefwyr | Cyfanswm 31.03.21 | Cyfanswm 31.03.20 | Sail y dyraniad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | |
| Llywodraethu | – | 28 | – | 28 | 41 | Nifer staff |
| Cyllid | 3 | 769 | 7 | 779 | 812 | Nifer staff |
| Technoleg gwybodaeth | 7 | 1,961 | 18 | 1,986 | 2,264 | Nifer staff |
| Gwasanaethau pobl | 3 | 809 | 7 | 819 | 718 | Nifer staff |
| Gwasanaethau Corfforaethol eraill | 2 | 670 | 6 | 678 | 501 | Nifer staff |
| **Cyfanswm** | **15** | **4,237** | **38** | **4,290** | **4,336** | |

Mae gwasanaethau cymorth yn cynnwys systemau Cyllid, Technoleg Gwybodaeth ac Adnoddau Dynol canolog i gefnogi'r broses o gyflenwi contractau'n lleol; llwyfan technoleg sy'n sicrhau amgylchedd lletya diogel iawn; system rheoli achosion sy'n gallu adrodd ar sail canlyniadau; cydymffurfio â GDPR; cydymffurfio â diogelu; cyflenwi ansawdd a safonau gwasanaeth cyson ar draws y rhanbarthau; parhau i rannu gwybodaeth; arloesi gyda gwasanaethau cenedlaethol; ymchwil a chasglu data ar berfformiad a thueddiadau cenedlaethol.

## 6. Taliadau cydnabyddiaeth a buddion ymddiriedolwyr/aelodau

Does dim un o'r ymddiriedolwyr wedi derbyn unrhyw gydnabyddiaeth nac wedi derbyn unrhyw fuddion eraill ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 (2019–20: £dim). Doedd dim costau wedi cael eu had-dalu i ymddiriedolwyr (2019–20: £4,394) ar gyfer costau teithio a chynhaliaeth am fynychu cyfarfodydd yr ymddiriedolwyr neu is-bwyllgorau eraill Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn gan fod pob cyfarfod wedi cael ei gynnal o bell.

# 7. Costau staff

## 7.1 Dadansoddiad o gostau staff

| | 31.03.21<br>£000 | 31.03.20<br>£000 |
|---|---|---|
| Cyflogau | 26,461 | 24,131 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 2,352 | 2,088 |
| Costau pensiwn | 1,177 | 1,124 |
| **Cyfanswm** | **29,990** | **27,343** |
| **Costau eraill staff** | | |
| Gwasanaethau ymgynghori allanol | 470 | 278 |
| Dileu a dod â swyddi i ben | 79 | 117 |
| Staff asiantaeth | 427 | 230 |
| **Cyfanswm** | **976** | **625** |
| **Cyfanswm costau staff** | **30,966** | **27,968** |

Y costau dileu swyddi a dalwyd yn y flwyddyn oedd £0.08m (2019–20: £0.12m). Mae staff asiantaeth yn cynnwys staff llanw pan fydd swyddi'n wag neu pan fydd staff ar absenoldeb salwch tymor hir.

## 7.2 Personél rheoli allweddol

| | 31.03.21<br>£000 | 31.03.20<br>£000 |
|---|---|---|
| Taliadau cydnabyddiaeth i'r personél rheoli allweddol | 558 | 484 |

Mae rhestr o'r personél rheoli allweddol ar dudalen 66.

## 7.3 Nifer y gweithwyr a oedd yn cael eu talu dros £60,000 oedd:

| | 31.03.21<br>£000 | 31.03.20<br>£000 |
|---|---|---|
| £60,001–£70,000 | 5 | 2 |
| £70,001–£80,000 | 5 | 4 |
| £80,001–£90,000 | – | – |
| £90,001–£100,000 | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **11** | **7** |

Cyfanswm y cyfraniadau pensiwn ar gyfer y staff uchod sydd ar gyflogau uwch oedd £40,827 (2019–20: £28,922).

## 7.4 Nifer y gweithwyr

| **Mae nifer cyfartalog y gweithwyr wedi'i rannu fel a ganlyn:** | 31.03.21<br>£000 | 31.03.20<br>£000 |
|---|---|---|
| Cefnogi a rheoli | 79 | 71 |
| Cyflenwi gwasanaethau | 840 | 777 |
| Y Gwasanaeth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau | 56 | 47 |
| **Cyfanswm** | **975** | **895** |

Roedd swm y gwyliau blynyddol i'w gario drosodd ar 31 Mawrth 2021 yn £355,472 (2019–20: £308,773) sy'n 0.9% (2019–20: 0.8%) o gyfanswm y gwariant. Does dim darpariaeth wedi'i gwneud ar gyfer y swm hwn gan nad yw'n berthnasol.

## 7.5 Gwirfoddolwyr

Roedd cyfanswm o 879 (2019–20: 1,245) o wirfoddolwyr, yn garedig iawn, wedi rhoi 42,540 (2019–20: 77,177) awr o'u hamser i helpu Cymorth i Ddioddefwyr yn 2020–21.

## 8. Eiddo, offer a chyfarpar

| | Prydles hir | Gosodiadau a ffitiadau | Cyfarpar swyddfa | Meddalwedd a seilwaith TG | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 287 | 45 | 49 | 4,884 | 5,265 |
| Ychwanegiadau | – | – | – | – | – |
| Gwarediadau | – | – | – | – | – |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | 287 | 45 | 49 | 4,884 | 5,265 |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | (242) | (45) | (49) | (3,859) | (4,195) |
| Tâl am y flwyddyn | (21) | – | – | (526) | (547) |
| Gwarediadau | – | – | – | – | – |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | (263) | (45) | (49) | (4,385) | (4,742) |
| **Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2021** | 24 | – | – | 499 | 523 |
| **Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2020** | 45 | – | – | 1,025 | 1,070 |

## 9. Ymrwymiadau prydlesi gweithredu

**Dyma oedd cyfanswm yr ymrwymiadau o dan brydlesi gweithredu:**

| | 31.03.21 | 31.03.20 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Yn daladwy cyn pen blwyddyn | 1,151 | 1,242 |
| Yn daladwy ymhen rhwng dwy a phum mlynedd | 830 | 1,623 |
| **Cyfanswm** | **1,981** | **2,865** |

# 10. Buddsoddiadau

## 10.1 Buddsoddiadau mewn is-gwmnïau

Mae Victims Support Limited (02609147), cwmni corfforedig yn y DU, ym mherchnogaeth lwyr y cwmni elusennol. Mae cyfrifon wedi'u harchwilio yn cael eu ffeilio â'r Cofrestrydd Cwmnïau. Mae'r buddsoddiad hwn yn costio £10,000. Mae crynodeb o'r canlyniadau ar gyfer y flwyddyn a'r sefyllfa ariannol fel yr oedd ar 31 Mawrth 2021, i'w gweld yn y tabl isod.

Mae VS Trading (Cornwall) Limited (04630210) ym mherchnogaeth lwyr y cwmni elusennol. Mae cyfrifon wedi'u harchwilio yn cael eu ffeilio â'r Cofrestrydd Cwmnïau. Mae'r buddsoddiad hwn yn costio £1. Cododd y cwmni arian i Cymorth i Ddioddefwyr drwy ddarparu gwasanaethau arlwyo yn Llys Ynadon Truro. Mae crynodeb o'r canlyniadau ar gyfer y flwyddyn a'r sefyllfa ariannol fel yr oedd ar 31 Mawrth 2021, i'w gweld yn y tabl isod. Bydd y cwmni hwn yn dirwyn i ben yn 2021–22.

| | Victims Support Limited | | VS Trading (Cornwall) Limited | |
|---|---|---|---|---|
| | 31.03.21 | 31.03.20 | 31.03.21 | 31.03.20 |
| | £ | £ | £ | £ |
| Trosiant | 42,128 | 68,343 | – | 7,528 |
| Cost gwerthiannau | (1,638) | (23,920) | – | (283) |
| **Elw gros** | 40,490 | 44,423 | – | 7,245 |
| Treuliau gweinyddu | (33,753) | (41,528) | – | (2,702) |
| **Elw gweithredu/(colled)** | 6,737 | 2,895 | – | 4,543 |
| Rhodd i Cymorth i Ddioddefwyr | (6,737) | (2,145) | – | (4,543) |
| Elw a gofnodwyd/(colled) | – | 750 | – | – |
| **Datganiad o'r sefyllfa ariannol** | | | | |
| Dyledwyr | 4,775 | 7,895 | – | – |
| Arian yn y banc | 45,749 | 10,987 | 1 | 1 |
| Credydwyr | (40,524) | (8,882) | – | – |
| Asedau net | 10,000 | 10,000 | 1 | 1 |

# 11. Dyledwyr

| | Cyfunol | | Elusen | |
|---|---|---|---|---|
| | 31.03.21 | 31.03.20 | 31.03.21 | 31.03.20 |
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Dyledwyr masnach | 2,945 | 1,982 | 2,941 | 1,975 |
| Dyledwyr rhwng cwmnïau | – | – | 23 | – |
| Dyledwyr eraill | 36 | 51 | 36 | 51 |
| Rhagdaliadau | 695 | 827 | 695 | 827 |
| Incwm cronnus | 2,879 | 2,180 | 2,878 | 2,180 |
| **Cyfanswm** | **6,555** | **5,040** | **6,573** | **5,033** |

# 12. Credydwyr: symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn

| | Cyfunol | | Elusen | |
|---|---|---|---|---|
| | 31.03.21 | 31.03.20 | 31.03.21 | 31.03.20 |
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Credydwyr masnach | 1,081 | 593 | 1,081 | 593 |
| Credydwyr rhwng cwmnïau | – | – | – | 3 |
| Trethiant a nawdd cymdeithasol | 1,382 | 1,352 | 1,369 | 1,344 |
| Credydwyr eraill | 189 | 174 | 189 | 174 |
| Croniadau | 342 | 547 | 342 | 547 |
| Incwm gohiriedig | 4,412 | 711 | 4,408 | 707 |
| **Cyfanswm** | **7,406** | **3,377** | **7,389** | **3,368** |

## 13. Incwm gohiriedig

| | Ar 01.04.20 | Gohiriwyd yn y flwyddyn | Rhyddhawyd yn y flwyddyn | Balans ar 31.03.21 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyfanswm | 711 | 4,412 | (711) | 4,412 |

## 14. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau

| | Balans ar 01.04.20 | Symudiadau mewn darpariaeth | Balans ar 31.03.21 |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Cyfanswm | 403 | (5) | 398 |

Mae'r ddarpariaeth yn berthnasol i ddadfeiliadau eiddo ar brydles lle mae gan Cymorth i Ddioddefwyr rwymedigaeth dan gontract i dalu costau o'r fath. Bydd y dadfeiliadau yn daladwy pan fydd y brydles yn dod i ben.

## 15. Dadansoddiad o asedau net rhwng cronfeydd

| | Cronfeydd anghyfyngedig | Cronfeydd cyfyngedig | 31.03.21 Cyfanswm cronfeydd | Cronfeydd anghyfyngedig | Cronfeydd cyfyngedig | 31.03.20 Cyfanswm cronfeydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Asedau sefydlog | 523 | – | 523 | 1,070 | – | 1,070 |
| Asedau cyfredol | 10,385 | 5,956 | 16,341 | 8,013 | 2,904 | 10,917 |
| Rhwymedigaethau cyfredol | (3,606) | (3,800) | (7,406) | (2,586) | (791) | (3,377) |
| Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau | (398) | – | (398) | (403) | – | (403) |
| Cyfanswm | 6,904 | 2,156 | 9,060 | 6,094 | 2,113 | 8,207 |

## 16. Symudiadau mewn cronfeydd

| | Ar 01.04.20 | Adnoddau i mewn | Adnoddau allan | Trosglwyddo rhwng cronfeydd | Ar 31.03.21 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **16.1 Cronfeydd cyfyngedig** | | | | | |
| Y Gwasanaeth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau – MoJ | 45 | 2,907 | (2,951) | – | 1 |
| Y Gwasanaeth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau – dim MoJ | 63 | 761 | (767) | – | 57 |
| Cyfyngedig canolog arall | 79 | – | – | – | 79 |
| **Cyfanswm – canolog** | **187** | **3,668** | **(3,718)** | **–** | **137** |
| Cyfyngedig yn ôl lleoliad | | | | | |
| Cymru a Gorllewin Lloegr | 406 | 3,367 | (3,319) | – | 454 |
| Llundain | 802 | 3,935 | (3,974) | – | 763 |
| Gogledd Lloegr a Dwyrain Canolbarth Lloegr | 600 | 1,582 | (1,528) | (2) | 652 |
| De Ddwyrain Lloegr | 118 | 1,133 | (1,110) | 9 | 150 |
| **Cyfanswm – ardal leol** | **1,926** | **10,017** | **(9,931)** | **7** | **2,019** |
| **Cyfanswm cronfeydd cyfyngedig** | **2,113** | **13,685** | **(13,649)** | **7** | **2,156** |
| | | | | | |
| **16.2 Cronfeydd anghyfyngedig** | **6,094** | **27,350** | **(26,533)** | **(7)** | **6,904** |
| **Cyfanswm cronfeydd** | **8,207** | **41,035** | **(40,182)** | **–** | **9,060** |

| | Ar 01.04.19 | Adnoddau i mewn | Adnoddau allan | Trosglwyddo rhwng cronfeydd | Ar 31.03.20 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **16.1 Cronfeydd cyfyngedig** | | | | | |
| Y Gwasanaeth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau – MoJ | – | 3,409 | (3,364) | – | 45 |
| Y Gwasanaeth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau – dim MoJ | 41 | 291 | (269) | – | 63 |
| Cyfyngedig canolog arall | 83 | – | (4) | – | 79 |
| **Cyfanswm – canolog** | **124** | **3,700** | **(3,637)** | **–** | **187** |
| **Cyfyngedig yn ôl lleoliad** | | | | | |
| Cymru a Gorllewin Lloegr | 256 | 2,647 | (2,502) | 5 | 406 |
| Llundain | 799 | 3,231 | (3,222) | (6) | 802 |
| Gogledd Lloegr a Dwyrain Canolbarth Lloegr | 725 | 754 | (865) | (14) | 600 |
| De Ddwyrain Lloegr | 207 | 1,495 | (1,601) | 17 | 118 |
| **Cyfanswm – ardal leol** | **1,987** | **8,127** | **(8,190)** | **2** | **1,926** |
| **Cyfanswm cronfeydd cyfyngedig** | **2,111** | **11,827** | **(11,827)** | **2** | **2,113** |
| | | | | | |
| **16.2 Cronfeydd anghyfyngedig** | **6,289** | **25,790** | **(25,983)** | **(2)** | **6,094** |
| **Cyfanswm cronfeydd** | **8,400** | **37,617** | **(37,810)** | **–** | **8,207** |



YN ÔL I'R CYNNWYS

**Grantiau MoJ:** yn ystod y flwyddyn, derbyniodd yr elusen £2.9m (2019–20: £3.4m) o gymorth grant cyfyngedig ar gyfer y Gwasanaeth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau.

**Cronfeydd cyfyngedig yn ôl diben a lleoliad:** Bydd cronfeydd wrth gefn yr ardaloedd lleol sy'n gyfyngedig yn ôl diben a lleoliad yn cael eu gwario ar wasanaethau sydd wedi'u pennu gan y rhoddwyr neu'r cyllidwyr.

**Cronfeydd anghyfyngedig:** Mae'r rhain ar gael ar gyfer amcanion cyffredinol yr elusen.

**Cronfeydd cyfyngedig eraill:** Cronfeydd yw'r rhain sydd wedi'u neilltuo i gefnogi prosiectau bach fel y Llinell Gymorth a Safer Schools.

## 17. Trafodion partïon perthynol

Heblaw am drafodion yn yr is-gwmni (Victims Support Limited) nid oedd trafodion partïon perthynol yn ystod y flwyddyn (2019–20: dim). Roedd trafodion yr elusen Cymorth i Ddioddefwyr yn ystod y flwyddyn yn dod i gyfanswm o £33,753 (2019–20: £41,528) a oedd yn ymwneud â chostau'r cwmni masnachu ar gyrsiau codi ymwybyddiaeth o ddioddefwyr, yr oedd yr elusen wedi talu amdanyn nhw ar ran yr is-gwmni. Ar 31 Mawrth 2021 roedd Cymorth i Ddioddefwyr mewn dyled o £23,430 i Victims Support Limited (2019–20: Roedd Cymorth i Ddioddefwyr mewn dyled o £2,998 i Victims Support Limited).

# Diolch

## Ein pobl

**A hithau wedi bod yn flwyddyn eithriadol, hoffem ddiolch o galon i chi, ein gwirfoddolwyr a'n staff rheng flaen, am y ffordd rydych chi wedi wynebu'r her a pharhau i gefnogi ein cleientiaid mewn amgylchiadau heriol.**

**Diolch o galon hefyd i'n staff gwasanaethau cefnogi sydd wedi sicrhau ein bod wedi gallu addasu'n gyflym er mwyn i'n gwasanaethau barhau i gael eu cynnal ac er mwyn sicrhau diogelwch a lles ein cleientiaid, ein staff a'n gwirfoddolwyr.**

## Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Mae nifer o straeon newyddion a mudiadau cyfiawnder cymdeithasol wedi tynnu sylw at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant eleni. Rydyn ni'n falch o fod yn sefydliad amrywiol sydd wedi ymrwymo i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant yn y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu, ac yn ein harferion gyda gweithwyr a gwirfoddolwyr hefyd.

Mae gweithgareddau allweddol sydd wedi'u cynnal â staff a gwirfoddolwyr eleni yn cynnwys:

- Hyfforddiant Race Matters ar gyfer yr Uwch Dîm Rheoli a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.
- Archwiliad recriwtio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i ganfod unrhyw beth posib sy'n rhwystro ymgeiswyr allanol rhag gwneud cais am swyddi ac ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ymhellach yn ein harferion recriwtio. O ganlyniad i'r archwiliad hwn, rydyn ni wedi diweddaru ein datganiad cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar hysbysebion swyddi. Rydyn ni wedi ymestyn yr wybodaeth sydd ar ein gwefan ynghylch ein hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac wedi treialu defnyddio llwyfannau sy'n benodol i amrywiaeth i roi sylw i feysydd sy'n cael eu tangynrychioli.
- Cyhoeddi ein gwybodaeth am y bwlch cyflog ethnigrwydd ac anabledd yn ogystal â chamau cefnogi y byddwn yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r bylchau hynny (gweler tudalen 62).
- Datblygu dau rwydwaith cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant newydd: Iechyd Meddwl a Lles, a Ffydd a Chred. Mae'r rhwydweithiau hyn wedi gweithio ochr yn ochr â'n rhwydweithiau eraill (BAME, Anabledd, Grymuso Rhywedd ac LGBT+) i godi ymwybyddiaeth o'r rhwystrau y mae pobl o rai hunaniaethau a chymunedau yn eu hwynebu, ac i fod yn gyfaill beirniadol i Cymorth i Ddioddefwyr wrth ymgynghori ar bolisïau a gweithdrefnau.
- Trafodaethau mewnol, gweminarau a blogiau yn ymwneud â'r mudiad Mae Bywydau Du o Bwys a thrafodaethau mewnol ehangach am hil. Mae'r gwaith hwn wedi helpu i sicrhau gwell dealltwriaeth o brofiadau uniongyrchol pobl sydd wedi profi hiliaeth a beth allwn ni, fel unigolion, ei wneud i'w cefnogi.
- Cyflwynodd ein tîm Pobl ymgyrch Work Well @ VS i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cymryd camau i ofalu am ein hiechyd meddwl a'n lles ein hunain ac iechyd meddwl a lles pobl eraill. Mae hyn wedi cynnwys rhannu adnoddau ac offer yng nghyswllt amrywiaeth o bynciau sy'n ymwneud â lles, cyflwyno sesiynau lles, gweithgareddau a syniadau lles bob mis a galwadau fforwm agored lle gall pobl drafod adnoddau neu heriau sy'n ymwneud â lles.

*"A fyddech cystal â diolch yn fawr i'r tîm cyfan am gynnwys gwych y cylchlythyr lles eleni. Maen nhw wedi fy ysbrydoli ac wedi codi fy nghalon yn ystod y flwyddyn anodd hon, felly roeddwn wir yn gwerthfawrogi'r ymdrech, er nad ydw i bob amser wedi ymateb iddyn nhw!"*

**Gwirfoddolwr, Avon a Gwlad yr Haf**

Roedden ni'n falch dros ben o ennill Gwobr Cydraddoldeb Trydydd Sector PinkNews 2020 i gydnabod ein gwaith yn ymgorffori cynhwysiant a chydraddoldeb LGBT+ ymhellach ar draws y sefydliad i staff, gwirfoddolwyr a defnyddwyr gwasanaeth.

PinkNews

## Cyfansoddiad staff Cymorth i Ddioddefwyr




| | |
|---|---|
| **85%** | Menyw |
| **15%** | Dyn |

| | |
|---|---|
| **65%** | Gwyn |
| **6%** | Asiaidd |
| **5%** | Du |
| **0.2%** | Ethnig Cymysg |
| **0.5%** | Grŵp Ethnig Arall |
| **21%** | Heb nodi eu hethnigrwydd |
| **0.5%** | Dewis peidio ateb |

| | |
|---|---|
| **63%** | Yn ystyried eu hunain ddim yn anabl |
| **9%** | Yn ystyried eu hunain yn anabl |
| **26%** | Heb nodi a oeddent yn anabl ai peidio |
| **2%** | Dewis peidio ateb |

| | |
|---|---|
| **69%** | Ystyried eu hunain yn heterorywiol |
| **6%** | Ystyried eu hunain yn LGBT+ |
| **22%** | Heb nodi eu cyfeiriadedd rhywiol |
| **1%** | Dewis peidio ateb |

| | |
|---|---|
| **35%** | Dim crefydd |
| **30%** | Cristion |
| **4%** | Mwslim |
| **3%** | Dewis disgrifio eu hunain |
| **1%** | Sikh |
| **0.5%** | Bwdhydd |
| **0.5%** | Iddewig |
| **0.1%** | Hindŵ |
| **21%** | Heb nodi eu crefydd |
| **4%** | Dewis peidio ateb |



## Dadansoddi'r bwlch cyflog

Mae Cymorth i Ddioddefwyr wedi bod yn cyhoeddi gwybodaeth am ei fwlch cyflog rhwng y rhywiau ers 2017 yn unol â gofynion rheoliadol. Dydy adrodd ar y bwlch cyflog ethnigrwydd ac anabledd ddim yn ofyniad cyfreithiol eto, ond fel rhan o ymrwymiad Cymorth i Ddioddefwyr i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac yn unol â'n strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, fe wnaethon ni gyhoeddi ein data ar y bwlch cyflog ethnigrwydd ac anabledd ar gyfer 2020–21 ar ein gwefan, a byddwn yn parhau i wneud hynny bob blwyddyn i ddangos ein cynnydd.

## Bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019–2020, roedd cyflog cymedrig menywod 13.2% yn is na chyflog cymedrig dynion. Roedd cyflog canolrifol menywod 3.3% yn is na chyflog canolrifol dynion. Doedd dim un gweithiwr wedi derbyn bonws yn Cymorth i Ddioddefwyr.

Does dim tystiolaeth bod ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn cael ei achosi gan wahaniaeth rhwng cyflogau dynion a menywod sy'n gweithio yn yr un rôl neu swydd.

Mae'r bwlch yn dod i'r amlwg oherwydd bod y gymhareb o fenywod i ddynion yn Cymorth i Ddioddefwyr yn gostwng ar lefelau uwch y sefydliad – sy'n golygu bod canran uwch o ddynion mewn swyddi rheoli, wrth i ni gymharu hyn â chanran y dynion a menywod mewn rolau is. Mae hyn yn dylanwadu ar y bylchau cymedrig a chanolrifol.

**Darllenwch beth mae Cymorth i Ddioddefwyr yn ei wneud i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.**

## Bwlch cyflog ethnigrwydd

Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020–2021, roedd cyflog cymedrig staff BAME[12] 0.5% yn is na chyflog cymedrig staff Gwyn, ac roedd cyflog canolrifol staff BAME 3.4% yn uwch na chyflog canolrifol staff Gwyn.

Does dim tystiolaeth bod ein bwlch cyflog ethnigrwydd yn cael ei achosi gan wahaniaeth rhwng cyflogau staff BAME a staff Gwyn sy'n gweithio yn yr un rôl neu swydd.

Mae'r bwlch cyflog ethnigrwydd cymedrig oherwydd bod cynrychiolaeth is o staff BAME yn y rolau uchaf yn Cymorth i Ddioddefwyr. Mae chwartel 4 yn croesi amrywiaeth o rolau a bandiau cyflog, ac er bod staff BAME yn cynrychioli 17% o'r chwartel hwn, mae staff BAME yn cael eu tangynrychioli ar frig y chwartel, ee Uwch Dîm Rheoli a rolau rheoli ehangach.

Mae cyflog canolrifol staff BAME yn uwch nag ar gyfer staff Gwyn, sy'n arwain at fwlch cyflog ethnigrwydd cadarnhaol. Fodd bynnag, rydyn ni'n ymwybodol o'r gwahaniaeth o ran demograffeg ethnigrwydd rhanbarthol staff ac effaith pwysoliad Llundain ar y ffigurau hyn, gan fod pwysoliad Llundain yn berthnasol i gyfran uchel o staff BAME Cymorth i Ddioddefwyr. Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau bod ein hadroddiadau ar y bylchau cyflog a'n camau dilynol yn gymesur ac yn adlewyrchu poblogaeth amrywiol staff Cymorth i Ddioddefwyr ledled Cymru a Lloegr. Felly, yn y dyfodol, byddwn yn parhau i fonitro cyfran y staff BAME a Gwyn sy'n derbyn pwysoliad Llundain wrth ddadansoddi ein bwlch cyflog ac yn cynnwys hyn mewn unrhyw gamau penodol i ranbarthau wrth roi sylw i fylchau cyflog.

**Darllenwch beth mae Cymorth i Ddioddefwyr yn ei wneud i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog BAME.**

## Bwlch cyflog anabledd

Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd ac mae'n dilyn yr holl gamau craidd i fodloni gofynion y cynllun. Rydyn ni'n gwarantu cyfweliad i bobl anabl sy'n bodloni'n gofynion sylfaenol ac yn croesawu ceisiadau gan bobl anabl ar gyfer rolau gwirfoddoli a staff. Rydyn ni hefyd yn parhau i wneud, ystyried a gweithredu addasiadau rhesymol i ganiatáu i'n staff a'n gwirfoddolwyr sy'n anabl neu sydd â chyflyrau iechyd tymor hir i barhau i gymryd rhan a chael cyfleoedd i wireddu eu potensial a chyflawni eu dyheadau.

Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020–2021, roedd cyflog cymedrig staff anabl 12.95% yn is na chyflog cymedrig staff nad oedden nhw'n anabl, ac roedd cyflog canolrifol staff anabl 3.39% yn is na chyflog canolrifol staff nad oedden nhw'n anabl.

Does dim tystiolaeth bod ein bwlch cyflog anabledd yn cael ei achosi gan wahaniaeth rhwng cyflogau staff anabl a staff nad ydyn nhw'n anabl sy'n gweithio yn yr un rôl neu swydd.

Mae'r bwlch cyflog anabledd yn dod i'r amlwg oherwydd bod y gymhareb o staff anabl i staff nad ydyn nhw'n anabl yn Cymorth i Ddioddefwyr yn gostwng ar lefelau uwch y sefydliad – sy'n golygu bod canran uwch o staff nad ydyn nhw'n anabl mewn swyddi rheoli, wrth i ni gymharu hyn â chanran y staff nad ydyn nhw'n anabl a staff anabl mewn rolau is. Mae hyn yn dylanwadu ar y bylchau cymedrig a chanolrifol.

**Darllenwch beth mae Cymorth i Ddioddefwyr yn ei wneud i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog anabledd.**

12 Yn ein dadansoddiad o'r bwlch cyflog ethnigrwydd, mae Cymorth i Ddioddefwyr yn defnyddio'r term BAME i ddisgrifio pob grŵp ethnig heblaw am y grŵp ethnig Gwyn. Fodd bynnag, rydyn ni'n gwybod bod profiadau'r bobl o wahanol grwpiau ethnig i gyd yn wahanol, a bod angen craffu ar brofiadau grwpiau ethnig penodol er mwyn canfod y rhwystrau unigol y mae grwpiau penodol yn eu hwynebu. Pan fydd setiau data yn caniatáu hynny, rydyn ni wedi dadansoddi hyn, ee dadansoddi staff Du, Asiaidd ac ethnigrwydd cymysg o'i gymharu â staff Gwyn.

# Ein cyllidwyr

**Rydyn ni'n ddiolchgar i bawb sydd wedi ein cefnogi ni yn 2020–21. Hoffem gydnabod y sefydliadau canlynol yn benodol:**

Bank of Ireland (UK) plc

Barclays Bank UK plc

Sefydliad Barclays

BBC Plant Mewn Angen

Cyngor Bwrdeistref Bedford

Sefydliad Cymunedol Swydd Bedford a Luton

Cyngor Plwyf Bishops Cleeve

Brewin Dolphin

Cyngor Dinas Bryste

Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Bury

Cynghrair Wirfoddol, Gymunedol a Ffydd Bury

Cyngor Dosbarth Cannock Chase

Cyngor Dinas Caerdydd

Cyngor Canol Swydd Bedford

Corfforaeth Dinas Llundain/ Heddlu Dinas Llundain

Co-op

Cyfrinfa Fasonaidd Corsham

Cronfa Gymorth Covid-19 (Cymdeithas Yswirwyr Prydain)

Cyngor Tref Devizes

Prosiect Cydlyniant Cymunedol Dudley

Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Dudley

Y Cyngor Meddygol Cyffredinol

Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

Cyfrinfa Fawr Wiltshire

Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf

Y Swyddfa Gartref

Cyngor Dinas Hull

Ymddiriedolaeth Koestler

Cyngor Plwyf Lancing

Diogelwch Cymunedol Leeds

Sefydliad Cymunedol Swydd Lincoln

Bwrdeistref Bexley yn Llundain

Bwrdeistref Camden yn Llundain

Bwrdeistref Ealing yn Llundain

Bwrdeistref Haringey yn Llundain

Bwrdeistref Islington yn Llundain

Bwrdeistref Lewisham yn Llundain

Bwrdeistref Merton yn Llundain

Bwrdeistref Tower Hamlets yn Llundain

Bwrdeistref Waltham Forest yn Llundain

Bwrdeistref Wandsworth yn Llundain

Cyngor Bwrdeistref Luton

Cyngor Plwyf Maresfield

Swyddfa Plismona a Throseddu'r Maer (Llundain)

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

National Westminster Bank plc

Cyngor Dinas Newcastle

Grŵp Comisiynu Clinigol y GIG De Ddwyrain Llundain

Cyngor Plwyf Gogledd Horsham

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Ymddiriedolaeth Elusennol Patricia Routledge

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Avon a Gwlad yr Haf

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Swydd Bedford

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Cumbria

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfnaint a Chernyw

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dorset

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Essex

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Swydd Gaerloyw

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Hampshire ac Ynys Wyth

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Glannau Humber

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Caint

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Swydd Gaerhirfryn

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Swydd Lincoln

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Glannau Mersi

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Norfolk

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Swydd Efrog

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Northumbria

Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Swydd Efrog

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Swydd Stafford

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Suffolk

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Sussex

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Swydd Warwick

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gorllewin Mersia

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gorllewin Canolbarth Lloegr

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gorllewin Swydd Efrog

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Wiltshire

Elusen Gyfunol Potton

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Cyngor Bwrdeistref Reading

Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Rochdale

Cyngor Bwrdeistref Rossendale

Bwrdeistref Frenhinol Kensington a Chelsea

Safe Spaces England and Wales

Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Sandwell

Sir Charles Jessel

Smile For Joel

Sophie Tea Art

Cyngor De Swydd Gaerloyw

Cyngor De Swydd Stafford

Cyngor Sir Swydd Stafford

Cyngor Dinas Stoke-on-Trent

Ymddiriedolaeth Elusennol Stonewall Park

Tesco

Eglwys Fethodistaidd Thatcham

Sefydliad Bell

The Moira Fund

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

The Red Arrows Trust

The Swaythling Housing Society Limited (yn masnachu fel Radian)

The Zochonis Charitable Trust

TK Maxx

Llywodraeth y DU

Vivid Housing Association

Waitrose

Cyngor Wakefield

Wakefield District Housing

Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Walsall

Llywodraeth Cymru

Cyngor Sir Gorllewin Sussex

Wiltshire Provincial Grand Chapter of Royal Arch Masons

Cyngor Dinas Caer-wynt

# Y bobl sydd wedi ein cefnogi ac sydd wedi codi arian i ni

Rydyn ni'n ddiolchgar i bawb sydd wedi codi arian ac wedi ein cefnogi ni yn 2020–21.

## Taith gerdded er cof am Brandon

**Ar 31 Ionawr 2021, aeth Syd ar daith gerdded 25 milltir i nodi'r diwrnod y byddai ei brawd wedi dathlu ei ben-blwydd yn 25 oed.**

Y llynedd, collodd Syd ei brawd mawr ar ôl trosedd dreisgar. Cefnogodd Cymorth i Ddioddefwyr hi drwy ei cholled, a phenderfynodd godi arian i ni i helpu pobl eraill mewn sefyllfa debyg.

Dywedodd:

*"Er na fydd unrhyw arian yn dod â fy mrawd yn ôl o gwbl, bydd yn helpu Cymorth i Ddioddefwyr i ddarparu eu gwasanaethau. Gobeithio y bydd yr arian rwyf wedi'i gasglu yn gallu helpu dioddefwyr/teuluoedd dioddefwyr i symud ymlaen ar ôl trosedd."*

Ar ôl cwblhau'r her a hanner, a hynny mewn amgylchiadau anodd, dywedodd Syd:

*"Diolch o galon am y dymuniadau da, mae angen hynny arna i! Doedd hi ddim y tywydd gorau o bell ffordd, yn yr oerfel, yr eira a'r gwynt, ond roedd yn werth chweil er mwyn helpu elusen mor wych! Roeddwn i'n meddwl am fy mrawd yr holl ffordd, gobeithio y byddai wedi bod yn falch ohona i :)"*

**Diolch am ein cefnogi ni Syd.**

*Llwyddodd Syd i godi'r swm anhygoel o* ***£1,402*** *i Cymorth i Ddioddefwyr. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i gefnogi dioddefwyr troseddau a'u teuluoedd.*



# Manylion cyfeirio a gweinyddol

| | |
|---|---|
| **Rhif yr elusen:** | 298028 Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr |
| **Rhif y cwmni:** | 2158780 Wedi cofrestru fel cwmni cyfyngedig trwy warant yng Nghymru a Lloegr |
| **Swyddfa gofrestredig:** | 1 Bridge Street, Derby DE1 3HZ |
| **Ysgrifennydd y Cwmni:** | Pauline Mouskis |

## Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| **Archwilydd:** | Mazars LLP, 6 Sutton Plaza, Sutton Court Road, Sutton, Surrey SM1 4FS |
| **Banc:** | Lloyds Banking Group plc, 25 Gresham Street, London EC2V 7HN |
| **Cyfreithwyr:** | Bates Wells Braithwaite, 10 Queen Street Place, London EC4R 1BE |

# Cyfarwyddwyr ac ymddiriedolwyr

Cyfarwyddwyr y cwmni elusennol (yr Elusen) yw'r ymddiriedolwyr at ddibenion cyfraith cwmnïau. Dyma pwy oedd yr ymddiriedolwyr a'r swyddogion a oedd yn gwasanaethu yn ystod y flwyddyn ac ers i'r flwyddyn ddod i ben:

# Personél rheoli allweddol


| | |
|---|---|
| Llywydd | Ei Huchelder y Dywysoges Frenhinol |
| Cadeirydd | Andrew Tivey |
| Is-gadeirydd | Les Mosco (hyd at 13 Tachwedd 2020), Roger Harding (o 13 Tachwedd 2020 ymlaen) |
| Trysorydd | Kathryn Adkins |
| Ymddiriedolwyr | Imran Ahmed<br>Christopher Digby-Bell (hyd at 13 Tachwedd 2020)<br>Andrew Edwards<br>Helen Evans (Cyfetholedig o 5 Mai 2021 ymlaen)<br>Richard Goodenough-Bayly<br>Amy Mary Rose Herring<br>Rachel Onikosi (Cyfetholedig o 28 Mai 2021 ymlaen)<br>Geoff Pollard (hyd at 13 Tachwedd 2020)<br>Lianne Smith<br>Amanda Stanley-Hamilton (Cyfetholedig o 5 Mai 2021 ymlaen)<br>Moyna Wilkinson |

Mae rhagor o wybodaeth am yr ymddiriedolwyr ar gael ar **wefan Cymorth i Ddioddefwyr**.

## Uwch Dîm Rheoli

Diana Fawcett, Prif Swyddog Gweithredol
Zoe Byrne, Cyfarwyddwr Gwasanaethau – De Lloegr a Chymru (o 6 Ebrill 2020 ymlaen)
Martyn Herward, Cyfarwyddwr – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Busnes
Simon Ketteridge, Cyfarwyddwr – Cyfarwyddwr Datblygu Busnes, Dealltwriaeth a Materion Allanol (o 27 Ebrill 2020 ymlaen)
Ellen Miller, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gogledd Lloegr a Dwyrain Canolbarth Lloegr (hyd at 6 Medi 2020)
Pauline Mouskis, Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro (o 24 Awst 2021 ymlaen)
Kultar Nayyar, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Llundain a Lladdiadau
Johanna Parks, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gogledd Lloegr a Chanolbarth Lloegr (o 1 Medi 2020 ymlaen)
Tony Silcock, Cyfarwyddwr Cyllid a Phobl (hyd at 24 Awst 2021)

Mae rhagor o wybodaeth am yr Uwch Dîm Rheoli ar gael ar **wefan Cymorth i Ddioddefwyr**.


Ymunwch
â ni i wneud
gwahaniaeth
Helpwch ni i gefnogi a grymuso pobl
y mae troseddau a digwyddiadau
trawmatig wedi effeithio arnyn nhw.
www.victimsupport.org.uk

# VICTIM SUPPORT

Rydyn ni'n elusen annibynnol sy'n cynnig cymorth cyfrinachol, am ddim, i bobl y mae troseddau a digwyddiadau trawmatig wedi effeithio arnyn nhw.

I gael gwybodaeth a chymorth, cysylltwch â ni drwy:

- ffonio: Llinell Gymorth **08 08 16 89 111**
- defnyddio gwasanaeth Testun y Genhedlaeth Nesaf (ychwanegwch **18001** cyn unrhyw un o'n rhifau ffôn)
- ar-lein: **victimsupport.org.uk**

I gael gwybod sut gallwch chi ein helpu ni, ewch i **victimsupport.org.uk/get-involved**

**victimsupport.org.uk**

VictimSupport
@VictimSupport
victimsupport_uk

Cyhoeddwyd gan Lywydd Cymorth i Ddioddefwyr
Ei Huchelder y Dywysoges Frenhinol

Victim Support, 1 Bridge Street, Derby, DE1 3HZ
Ffôn: 020 7268 0200

Rhif cofrestru'r elusen: 298028 Rhif y cwmni: 2158780
Cofrestrwyd yn Lloegr. Cyfyngedig trwy warant.
Swyddfa gofrestredig, fel uchod.

Business Disability Forum
Building disability-smart organisations

Leaders in Diversity Award

Stonewall DIVERSITY CHAMPION

Delweddau: ©Getty Images
Hydref 2021 | P2699 © 2021 Cymorth i Ddioddefwyr

YN ÔL I'R CYNNWYS